

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: O Bell

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Committee Room 3 – Tŷ Hywel

Gareth Price – Clerc y Pwyllgor

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Ionawr 2022

0300 200 6565

Amser: 14.00

Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 26)

2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1226 Dileu'r hyn sy'n rhwystro mynediad i waith cymdeithasol ac annog parch cydradd rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd

(Tudalennau 27 – 34)

2.2 P-06-1227 Mae angen uned iechyd meddwl arbenigol i famau a babanod yng Ngogledd Cymru

(Tudalennau 35 – 47)

2.3 P-06-1233 Diddymu Rheoliadau Coronafeirws a dod â holl gyfyngiadau COVID-19 i ben

(Tudalennau 48 – 52)

2.4 P-06-1236 Dylai menywod gael ei sgrinio'n rheolaidd gyda phrawf gwaed o'r enw CA125 i ganfod canser yr ofari

(Tudalennau 53 – 58)

2.5 P-06-1237 Ystyried defnyddio Graddau a Aseswyd gan Athrawon ar gyfer dysgwyr na allent sefyll arholiadau TGAU ym mis Tachwedd oherwydd prawf COVID positif. Dylid sicrhau bod trefniadau tecach ar waith ar gyfer arholiadau mis Mai

(Tudalennau 59 – 66)

2.6 P-06-1238 Gwahardd polystyren a phlastigau untro eraill!

(Tudalennau 67 – 72)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol



- 3.1 P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONTFAEN RHAG EI DYMCHWEL
(Tudalennau 73 – 74)
- 3.2 P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus
(Tudalennau 75 – 77)
- 3.3 P-06-1197 Gwasanaeth sgrinio'r galon am ddim i bob plentyn rhwng 11 a 35 oed sy'n cynrychioli ei ysgol neu sir mewn chwaraeon
(Tudalennau 78 – 83)
- 3.4 P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg
(Tudalennau 84 – 88)
- 3.5 P-06-1217 Agor canolfannau/clinigau meddygol un stop Covid Hir
(Tudalennau 89 – 95)
- 3.6 P-06-1208 Deddfau newydd i amddiffyn gwiwerod coch prin rhag colli cynefinoedd sy'n achosi dirywiad yn eu poblogaeth
(Tudalennau 96 – 100)
- 3.7 P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy
(Tudalennau 101 – 104)
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 5 y cyfarfod.**
- 5 Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau**
(Tudalennau 105 – 113)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Dileu'r hyn sy'n rhwystro mynediad i waith cymdeithasol

Y Pwyllgor Deisebau | 24 Ionawr 2022
Petitions Committee | 24 January 2022

Cyfeirnod: SR21/1434-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1226

Teitl y ddeiseb: Dileu'r hyn sy'n rhwystro mynediad i waith cymdeithasol ac annog parch cydradd rhwng gofal cymdeithasol ac ieched.

Geiriad y ddeiseb: Mae polisi presennol Llywodraeth Cymru yn gosod caledi diangen ar ddarpar weithwyr cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr sy'n dilyn cwrs Meistr mewn gwaith cymdeithasol yn cael eu gwahardd rhag cael benthyciad i fyfyrwyr a bwrsariaeth gofal cymdeithasol ar yr un pryd.

Rydym yn galw ar Senedd Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru annog a chefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol o bob cefndir, cael gwared ar rwystrau i'r proffesiwn, a datblygu mwy o barch cydradd rhwng y gweithlu lechyd a Gofal Cymdeithasol.



1. Cefndir

Mae [Cyngor Gofal Cymru](#) (CGC) yn rheoli'r cynllun bwrsariaeth gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n astudio cwrs wedi'i gymeradwyo ar gyfer gradd gyntaf neu radd Meistr mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Mae CGC wedi cyhoeddi [canllawiau](#) ar y cynllun bwrsariaeth gwaith cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021 i 2022, ac mae gwefan CGC hefyd yn darparu gwybodaeth am [gyllid ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol](#).

Mae gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru yn rhoi [gwybodaeth](#) am gyllid ar gyfer cyrsiau Meistr ôl-raddedig ac yn nodi na all person gael cyllid gradd Meistr ôl-raddedig os yw'n cael cyllid gan fwrsariaeth gwaith cymdeithasol. Mae hefyd yn nodi na all person gael cyllid gradd Meistr ôl-raddedig os yw'n gymwys i gael bwrsariaeth GIG.

Dyma a ddywed y [wybodaeth gefndir](#) i'r ddeiseb:

Mae myfyrwyr sy'n dilyn cwrs Meistr mewn gwaith cymdeithasol yn cael eu gwahardd rhag cael benthyciad i fyfyrwyr a bwrsariaeth gofal cymdeithasol ar yr un pryd. Mae hyn yn arwain at ddiffyg o filoedd o bunnoedd heb unrhyw gefnogaeth ar gyfer llety, bwyd, biliau cyfleustodau, car, a chostau byw cyffredinol am dros ddwy flynedd.

Mae hyn yn gosod pwysau aruthrol ar weithlu'r dyfodol ac yn rhwystr i'r proffesiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ein cydweithwyr yn y GIG gyda grantiau i dalu ffioedd dysgu yn llawn, yn ogystal â chaniatáu mynediad i fwrsariaethau costau byw neu dalu cyflog. Cafodd llawer o fyfyrwyr y GIG y taliad COVID pan gafodd myfyrwyr gwaith cymdeithasol eu heithrio. Mae hynny er gwaetha'r ffaith bod myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn rheoli miloedd o lwythi achosion ledled Cymru yn ystod y pandemig.

Mae'r diffyg parch cydradd rhwng gwaith cymdeithasol a gofal iechyd yn cael ei gyfleu i'r dim gan y driniaeth wahaniaethol ymhlith myfyrwyr Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r cyllid uchaf erioed - sef £227m - ar gyfer addysgu a hyfforddi gweithlu'r GIG. Byddai llai na 0.2% o'r swm hwnnw'n unioni'r anawsterau sy'n wynebu myfyrwyr cwrs meistr mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Pwyllgor dyddiedig 14 Rhagfyr 2021, mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio tuag at sicrhau parch cydradd rhwng y gweithluoedd gofal cymdeithasol ac iechyd a bod y Llywodraeth yn cymryd camau i wella amodau gwaith gweithwyr gofal cymdeithasol a phroffesiynoli'r sector trwy broses o gofrestru.

Mae CGC yn arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithlu gwaith cymdeithasol a fydd, yn ôl y Dirprwy Weinidog, yn cynnwys ystyried pa newidiadau y gellid eu gwneud i gefnogi pobl i hyfforddi fel gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys mewn perthynas â'r fwrsariaeth. Dyma un o'r camau gweithredu cynnar sy'n cael eu cymryd o dan y [Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar y cyd rhwng Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Chyngor Gofal Cymru. Disgwylir i'r cynllun gweithlu drafft fod ar gael yn 2022.

Mae'r Dirprwy Weinidog yn cydnabod y ffaith bod anghysondeb yn y rheoliadau sy'n llywodraethu cyllid myfyrwyr wedi rhwystro myfyrwyr ôl-raddedig sydd wedi dewis derbyn y fwrsariaeth gwaith cymdeithasol rhag ymgeisio am rai benthyciadau myfyrwyr.

Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i edrych ar sut y gellid newid y rheoliadau i alluogi ôl-raddedigion i gael mynediad at gymorth ariannol ychwanegol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd y newidiadau hyn, wedi eu cwblhau, yn golygu y bydd myfyrwyr cymwys yn gallu gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru am fenthyciad gostyngol ychwanegol, yr un fath â myfyrwyr israddedig.

Fodd bynnag, mae'r Dirprwy Weinidog yn tynnu sylw at y ffaith y bydd hyn yn gofyn am i'r meini prawf cymhwysedd a nodir mewn rheoliadau gael eu diwygio rywfaint, sef proses sy'n dal i fynd rhagddi, ac oherwydd yr amserlenni ar gyfer cyflwyno rheoliadau o'r fath, ni fyddai unrhyw newidiadau yn dod i rym tan y flwyddyn academaidd 2022/23.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ar 4 Tachwedd 2021, rhoddodd AaGIC ac CGC dystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eu strategaeth ar y cyd, Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

Yn rhystiolaeth ysgrifenedig AaGIC ac CGC i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nodir bod gwaith wedi dechrau mewn meysydd o brinder gweithlu aciwt ar gynlluniau gweithlu ar gyfer galwedigaethau allweddol a gydnabyddir yng nghamau gweithredu'r Strategaeth, gan gynnwys gwaith cymdeithasol.

Mae tudalen 10 o'r dystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod adolygiad o addysg a chyllid gwaith cymdeithasol ar waith i gydnabod y pwysau recriwtio uniongyrchol ym maes gwaith cymdeithasol. Bydd yr adolygiad yn cyflwyno canfyddiadau o ran cyflenwad gwaith cymdeithasol a'r galw amdano, ynghyd â'r heriau a wynebir, gyda chymariaethau â gwledydd eraill y DU a llwybrau proffesiynol eraill yng Nghymru h.y. iechyd ac addysg.

Mae AaGIC ac CGC yn nodi eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'r ymgyrchoedd recriwtio Hyfforddi Gweithio Byw (AaGIC) a Gofalwn (CGC) sy'n mynd rhagddynt, ac yn tynnu sylw at 'bentref rhithwir' ar gyfer gyrfaoedd iechyd a gofal newydd, sef Tregyrfa/Careersville.

Er mwyn llywio'r sesiwn dystiolaeth gydag AaGIC a Chyngor Gofal Cymru, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgyngoriad agored rhwng 25 Awst ac 8 Hydref 2021. Pryder a amlygwyd mewn rhai o'r ymatebion a gafwyd oedd diffyg cydraddoldeb rhwng tâl a thelerau/amodau ar gyfer staff gofal cymdeithasol a staff iechyd.

Dywed AaGIC ac CGC yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor eu bod yn gweithio i wella cydraddoldeb rhwng staff iechyd a staff gofal, yn ogystal ag o fewn y sector gofal ei hun.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r

papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1226
Ein cyf/Our ref JMSS/10572/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau at Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd eich llythyr yn amlinellu'r ddeiseb gan y garfan sy'n gwneud gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd, yn galw am ddileu'r rhwystrau i mewn i faes gwaith cymdeithasol, yn ogystal ag annog parch cyfartal rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd. Rwy'n ymateb fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol.

Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod parch cyfartal rhwng y gweithluoedd gofal cymdeithasol ac iechyd. Rydym hefyd yn gweithredu i wella amodau gwaith gweithwyr gofal cymdeithasol, yn ogystal â phroffesiynoli'r sector drwy broses o gofrestru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain ar ddatblygu Cynllun Gweithlu gwaith cymdeithasol a fydd yn edrych ar ba newidiadau a fyddai'n bosibl er mwyn cefnogi pobl i hyfforddi fel gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau mewn perthynas â'r bwrsariaeth. Dyma un o'r camau gweithredu cyntaf sy'n cael ei ddatblygu o dan 'Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ar y cyd gydag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Disgwylir y bydd y cynllun gweithlu drafft hwn ar gael yn y flwyddyn newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 32
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y mater penodol a godwyd ynglŷn â chyllid ôl-raddedig ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, mae anghysondebau yn y rheoliadau sy'n llywodraethu cyllid myfyrwyr wedi rhwystro myfyrwyr ôl-raddedig sydd wedi dewis derbyn y fwrariaeth gwaith cymdeithasol rhag ymgeisio am rai benthyciadau i fyfyrwyr. Rydym wedi bod yn cydweithio â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i edrych ar sut y gellid sicrhau newidiadau i'r rheoliadau hyn er mwyn galluogi ôl-raddedigion i gael gafael ar gymorth ariannol ychwanegol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Pan fydd y newidiadau wedi eu cwblhau, golyga hyn y bydd myfyrwyr sy'n gymwys yn gallu ymgeisio am fenthyciad gostyngol ychwanegol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn yr un modd â myfyrwyr is-raddedig. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am rywfaint o newid i'r meini prawf cymhwysedd sydd wedi'u hamlinellu yn y rheoliadau. Mae hon yn broses barhaus ar hyn o bryd, ac o ganlyniad i amserlenni ar gyfer cyflwyno rheoliadau o'r fath, ni fyddai unrhyw newidiadau yn dod i rym tan y flwyddyn academaidd 2022/23.

Gobeithiaf fod hyn o gymorth.

Yn gywir,



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

P-06-1226 Dileu'r hyn sy'n rhwystro mynediad i waith cymdeithasol ac annog parch cydradd rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd, Dogfen Briffio – Deisebwyr at y Pwyllgor, 17.01.22

Dogfen briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau gan Ymgyrch Bwrsariaeth MASW

Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r gweithlu presennol yn un sy'n heneiddio, gyda dros 50% o'r gweithlu dros 45 oed a 24% dros 55¹. Mae'r gweithiwr cymdeithasol arferol yng Nghymru yn wyn, benywaidd, a 46 mlwydd oed. Y gymhareb benyw i wryw yw 5-1 ac mae 88% yn wyn Prydeinig, ac mae gan 3% anabled². Mae'r angen i recriwtio gweithwyr cymdeithasol newydd yn hollbwysig. Mae'r data diweddaraf yn dangos, dros y ddwy flynedd rhwng 2018-2020, bod 516 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar y gofrestr, gyda thros draean, sef 154, yn fyfyrwyr MA³. Fodd bynnag, gadawodd 20% o fyfyrwyr y gofrestr, gyda'r mwyafrif yn nodi rhesymau personol ac iechyd.⁴

Mae'r MA mewn gwaith cymdeithasol yn gwrs dwy flynedd llawn amser; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cael eu gorfodi i weithio'n rhan-amser ochr yn ochr â chws amser llawn oherwydd diffyg cymorth ariannol. Fodd bynnag, yn hanesyddol mae myfyrwyr iechyd wedi elwa ar lefelau uwch o gymorth ariannol ac yn parhau i wneud hynny. Er enghraifft, mae ein cydweithwyr iechyd yn elwa ar y cymorth mwyaf erioed o £227,000,000⁵ ar gyfer addysg a hyfforddiant. Nid yw'n hawdd canfod union ffigurau, ond byddai amcangyfrif bras yn awgrymu bod myfyrwyr y GIG yn cael pum gwaith lefel y cymorth na'u cydweithwyr gofal cymdeithasol.

Bydd myfyriwr GIG arferol yn derbyn bwrsariaeth o tua £33,000-£40,000 yn dibynnu ar incwm y cartref. Mae benthyciadau cynhaliaeth bersonol ar gael i fyfyrwyr sy'n derbyn y swm is. Ychydig iawn o fyfyrwyr y GIG sy'n cymhwyso â dyled sylweddol, ac eithrio ffioedd llety posibl.

Mae myfyriwr israddedig gweithiwr cymdeithasol nodweddiadol yn derbyn bwrsariaeth o £7,500. Mae disgwyl iddyn nhw gymryd benthyciad myfyriwr ar gyfer ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth i oroesi. Bydd gweithiwr cymdeithasol israddedig arferol yn cymhwyso gyda mwy na £40,000 mewn dyled.

Mae myfyrwyr MA gwaith cymdeithasol yn derbyn bwrsari sylweddol o £13,000; fodd bynnag, dydy hyn ddim yn talu ffioedd dysgu. Mae yna reoliadau⁶ gan Lywodraeth Cymru sy'n gwahardd myfyrwyr MA rhag cael mynediad at gyllid myfyrwyr a bwrsariaeth ar yr un pryd, er bod y GIG ac israddedigion yn gwneud hynny. Mae'r rheoliadau hyn yn gorfodi gweithwyr cymdeithasol a'u teuluoedd i galedi ac yn rhwystr gwirioneddol.

Beth sydd angen ei newid?

1. Diwygio'r rheoliadau sy'n gwahardd myfyrwyr MA rhag cael cymorth ariannol.
2. Sicrhau bwrsariaeth gyfatebol rhwng bwrsariaeth Gofal Cymdeithasol Cymru a bwrsariaeth GIG (Cymru) i sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol- nid yw'n gydraddoldeb i'w gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol gymhwyso gyda dyled o £40,000-£50,000 i ymgymryd â swydd rôl gwasanaeth iechyd cyhoeddus
3. Sicrhau bod newidiadau'n digwydd mewn modd amserol, i gefnogi gweithlu gwaith cymdeithasol y dyfodol.

¹ Social Worker Workforce Planning 2019 (ADSS/SCW/WLGA)

² Social Care Wales- Social Worker Fact Sheet 2020

³ Fact sheet (SCW) Social work students on the Register 2019&2020

⁴ Fact sheet (SCW) Social work students on the Register 2019&2020

⁵ Record funding of £227m announced to expand NHS Wales workforce- WG Press Release 07/12/20

⁶ The Education (Student Support)(Post Graduate Master Degrees (Wales) Regs 2019



Uned iechyd meddwl arbenigol mamau a'u babanod yng ngogledd Cymru

bY Pwyllgor Deisebau | 24 Ionawr 2022
Petitions Committee | 24 January 2022

Cyfeirnod: SR21/1434-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1227

Teitl y ddeiseb: Mae angen uned iechyd meddwl arbenigol i famau a babanod yng Ngogledd Cymru

Testun y ddeiseb: Mae angen uned mamau a babanod yng Ngogledd Cymru fel nad oes yn rhaid i deuluoedd deithio i Loegr, ac mae angen i'r gwasanaeth hwn fod ar gael yn Gymraeg. Mae hwn yn wasanaeth iechyd meddwl hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer Gogledd Cymru.



1. Cefndir

Mae'r cyfnod amenedigol yn dechrau ar ddechrau'r beichiogrwydd ac mae'n paratann ddiwedd y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r baban gael ei eni. Mae iechyd meddwl amenedigol yn ymwneud ag iechyd a lles seicolegol ac emosiynol merched beichiog a'u plant, eu partneriaid a'u teuluoedd. Mae mwy o berygl i ferched gael problemau iechyd meddwl pan fyddant yn feichiog neu ar ôl iddynt roi genedigaeth.

Diffinnir problemau iechyd meddwl amenedigol yn ôl sbectrwm o faterion iechyd meddwl, gan gynnwys gorbryder, iselder ac anhwylderau seicotig ôl-enedigol sy'n dechrau yn ystod beichiogrwydd neu'r flwyddyn gyntaf ar ôl genedigaeth baban.

Er bod triniaeth yr un mor effeithiol i ferched yn y cyfnod amenedigol ag ydyw ar adegau eraill, mae afiechyd meddwl amenedigol yn gysylltiedig ag angen cynyddol i ddarparu gofal yn brydlon ac yn effeithiol. Y rheswm dros hyn yw bod posibilrwydd i broblem iechyd meddwl sy'n codi yn ystod y cyfnod amenedigol effeithio nid yn unig ar y fam, ond gall hefyd effeithio'n barhaol ar y plentyn sy'n datblygu. Yn gysylltiedig â hyn, gall gwahanu'r fam a'r baban effeithio'n ddifrifol ar y berthynas rhwng y fam a'r baban a gall fod yn anodd dadwneud yr effeithiau hyn.

Mae unedau mamau a babanod yn wardiau seiciatrig arbenigol mewn ysbytai lle gall merched sydd â phroblemau iechyd meddwl amenedigol difrifol gael eu derbyn gyda'u babanod. Mae'r unedau hyn yn cynnig triniaeth a chymorth i ferched sydd â phroblemau iechyd meddwl amenedigol gan hefyd eu helpu i ddatblygu eu sgiliau fel rhieni a meithrin perthynas â'u babanod.

2. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol yn 2017. Nod yr ymchwiliad oedd ystyried sut y mae gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn cael eu darparu a sut y gallai Llywodraeth Cymru wella gwasanaethau i famau, babanod, tadau a theuluoedd.

Pan gynhaliwyd ymchwiliad y Pwyllgor, nid oedd yr un uned mamau a babanod yng Nghymru yn dilyn penderfyniad i gau uned yng Nghaerdydd gau yn 2013. Os oedd angen triniaeth mewn ysbyty ar ferched ar gyfer problemau iechyd meddwl amenedigol, byddent naill ai'n cael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl aciwt heb eu babanod neu'n gorfod teithio i uned yn Lloegr.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad fis Hydref 2017, ac roedd yn cynnwys y dystiolaeth a glywodd am yr angen i sefydlu uned mamau a babanod yng Nghymru ynghyd ag argymhellion a oedd yn cynnwys y canlynol:

Argymhelliad 6 Bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, yn sefydlu uned mamau a babanod yn ne Cymru, wedi'i chomisiynu a'i chyllido yn genedlaethol i ddarparu gwasanaethau Cymru gyfan, sydd â staff digonol o ran niferoedd a disgyblaethau, ac sy'n gweithredu fel canolfan ganolog o wybodaeth a dysgu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru

Argymhelliad 7 Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r ffaith na fydd uned mamau a babanod sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru o reidrwydd yn addas i famau a theuluoedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru, yn ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain a allai wasanaethu poblogaethau o boptu'r ffin. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd mewn perthynas â gallu GIG Cymru i gomisiynu gwelyau mewn unedau mamau a babanod mewn canolfannau yn Lloegr lle pennir bod angen clinigol amdanynt.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad.

Agorodd uned mamau a babanod dros dro yn Ysbyty Tonna ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ym mis Ebrill 2021.

Datblygiadau yn y ddarpariaeth i gleifion yng Ngogledd Cymru

Ar ôl cyhoeddi ei adroddiad, cafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wybodaeth yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru am y cynnydd yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

Yn fwy diweddar, ar 7 Hydref 2021, cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Chweched Senedd sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Yn ystod y cyfarfod, nododd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant fod gwaith yn parhau i fynd rhagddo mewn perthynas ag agor uned mamau a babanod ar gyfer Gogledd Cymru, a'i bod 'wedi ymrwymo'n gryf' i wneud hynny.

Yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol ar 7 Hydref, ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ofyn am ragor o wybodaeth. Mewn perthynas ag agor Uned Mamau a Babanod yng Ngogledd Cymru, soniwyd yn y llythyr fod y Pwyllgor yn pryderu y byddai angen i ferched a babanod yng Ngogledd Cymru barhau i deithio'n bell i gael cymorth arbenigol fel cleifion mewnol. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r datganiad gan y Dirprwy Weinidog sy'n dweud bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo i sicrhau y bydd darpariaeth ar gael i famau sy'n byw yng Ngogledd Cymru a gofynnodd am ragor o fanylion am y posibiladau a'r amserlen ar gyfer y gwaith.

Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i lythyr y Pwyllgor ar 22 Tachwedd 2021. Yn ei llythyr, mae'r Dirprwy Weinidog yn egluro bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda GIG Lloegr i ddatblygu'r posibilrwydd o ddatblygu uned wyth gwely i famau a babanod ar y cyd er mwyn cynnig darpariaeth i ferched o ogledd Cymru. Mae'r sail resymegol dros sefydlu uned wyth gwely ar y cyd yn seiliedig ar waith modelu a wnaed gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), sydd wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar, ac i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy i ferched yng Ngogledd Cymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn a'r amserlen ar gyfer ei weithredu ar gael yn fuan.

Ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 17 Rhagfyr 2021 yn gofyn am wybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl amenedigol bob chwe mis yn rheolaidd.

3. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn y llythyr at y Pwyllgor Deisebau dyddiedig 14 Rhagfyr 2021, mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod unedau mamau a babanod ar gael i ferched sy'n byw yng Ngogledd Cymru a'i bod wedi cael gwybodaeth am y datblygiadau'n rheolaidd. Roedd hefyd wedi cwrdd yn ddiweddar ag arweinwyr WHSSC i drafod y mater.

Mae'r llythyr yn egluro bod y gwaith modelu a wnaed yng Nghymru wedi dangos nad oes digon o alw am uned annibynnol yng Ngogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru felly wedi bod yn gweithio ar y cyd â GIG Lloegr i ddatblygu uned ar y cyd yng Ngogledd-orllewin Lloegr a fydd yn hygyrch o ogledd Cymru. Dywedir bod 'ymgysylltu sylweddol' o hyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, WHSSC a GIG Lloegr ynghylch datblygu'r uned newydd hon.

Mae'r Dirprwy Weinidog yn mynd rhagddi i ddweud ei bod wedi gofyn i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu 'ar frys a chyflymder gwirioneddol' ac y bydd yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd. Mae'r Dirprwy Weinidog yn nodi ei bod wedi cynnig ei chefnogaeth i swyddogion sy'n cydweithio â GIG Lloegr er mwyn sicrhau bod modd bwrw ymlaen yn gyflym â hyn. Yn y llythyr hefyd, mae'n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r darparwr i ddiwallu anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith wrth ddatblygu'r uned.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1227

Ein cyf/Our ref LN/10341/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr 5 Tachwedd ynghylch deiseb i sefydlu uned iechyd meddwl arbenigol i famau a babanod yn y Gogledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaeth uned mamau a babanod ar gael i famau sy'n byw yn y Gogledd. Rydym yn sylweddoli mor bwysig yw hi bod mamau newydd yn gallu cael y cymorth arbenigol angenrheidiol iddynt hwy a'u babanod yn nes at adref. Ar ôl ymweld â'r uned mamau a babanod yn Abertawe, drwy ddull rhithwir, yn gynharach eleni, rwyf wedi gweld yr effaith bwysig y gall ei chael. Yn fy rôl fel Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, rwyf wedi cael diweddariadau rheolaidd ar hyn yn unol â'm cais, ac yn ddiweddar fe wnes i gyfarfod ag arweinwyr Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i drafod y datblygiad hwn.

Mae'r gwaith modelu a wnaed yng Nghymru wedi dangos nad oes gennym ddigon o alw i gael uned annibynnol yn y Gogledd. Felly rydym wedi bod yn cydweithio ag NHS England i ddatblygu uned ar y cyd yng Ngogledd Orllewin Lloegr a fydd ar gael i drigolion Gogledd Cymru. Mae ymgysylltu sylweddol o hyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSCC) ac NHS England ynghylch datblygu'r uned newydd hon.

Rwyf wedi gofyn am i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ar frys a chyflymder gwirioneddol. Byddaf yn parhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd iawn gan swyddogion ac yn ddiweddar fe wnes i gyfarfod WHSCC eto i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rwyf hefyd wedi cynnig fy nghefnogaeth i swyddogion sy'n cydweithio ag NHS England er mwyn sicrhau bod modd bwrw ymlaen yn gyflym â hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 40
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf hefyd gadarnhau ein bod yn gweithio gyda'r darparwr i gefnogi anghenion Cymraeg ein cleifion wrth ddatblygu'r uned.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lynne Neagle'.

Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

P-06-1227 To get a specialist mental health mother and baby unit in North Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 13.01.22

Dear Committee,

The reason I started this petition was to get a Mother and baby unit in North Wales and to make a difference for mothers and families in North Wales following my experience. This is a very much needed service needed covering Wrexham, Flintshire, Denbighshire, Conwy, Gwynedd, Isle of Anglesey, and potentially areas of Mid Wales Powys and Ceredigion. In my opinion this is a very large area and a big demand with the population in all of these counties. With 1 in 5 women experiencing difficulties with their mental health during and after pregnancy this shows the demand that is needed for treatment and potential hospitalisation for mothers.

It's good to hear that the Welsh Government is committed to ensure a Mother and Baby provision for mothers who live in North Wales and the importance of this service and specialist support the mothers need for themselves and their babies close to home and their support network of family and friends. But the possible unit going to be located in North West England is disappointing which means that there will be only one Mother and baby unit still in Wales located in Swansea, and the impact and importance of this service is evident in Swansea and the surrounding area. This means that mothers with their baby and family and friends will still have a distance to travel to North West England covering all of North Wales counties and possible mid Wales counties, also with not considering the need for the service in North West England which would mean that the beds in a unit would be quickly filled with a mix of English and Welsh patients with possible England patients given priority.

From looking at the MBU units in the UK there is a national shortage of beds already so mothers are already travelling around the UK away from their families and friends. It is very important to have loved ones close when in crisis which I have been through myself and my main reason for starting this petition with my experience of a hard time for me and my family and distance was a strain on us all and for me needing my family in an emergency situation was very traumatic and I'm sure that many families go through this also and is a huge stress for all involved. This would mean also that the English Government would need the funding from the Welsh Government for the cost of care of a Welsh patient in an English hospital.

I am also worried that the service being available in Wales in an English hospital and whether this promise will be kept, with my experience is very important and I believe it is essential for a Welsh speaking individual in a crisis situation where I prefer my first language at times of mental health situations especially when I'm talking about my true feelings and needs at this time. I'm sure that other individuals in my situation would prefer to speak Welsh as well.

In my personal situation if we decide to have any more children, I was advised by doctors in Manchester to go to a unit before a second baby is born so they can observe my health on the later half of the pregnancy. With me being high risk with having bipolar the risks involved were known in my first pregnancy and I was under perinatal care which didn't go to plan as the care coordinators were off sick and no other professionals were available so it shows that a unit is in desperate need in the area. There is room on half of the Ablett ward at Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan known as Tawel Fan. This has not been used for a

number of years. Without this service in North Wales a great strain is added to families involved and also a great strain is put on the MBU units in the location which has a bed (if available). To be sent to a unit somewhere in England the baby would be born in an English hospital. We and others would prefer to be in a Welsh hospital for a Welsh birth certificate and i'm sure this is understandable for our Welsh heritage and preference of a birthplace. I'm sure anyone who lives in Wales in this situation would prefer to be in Wales so with the only a Mother and baby unit in Swansea, South Wales this would not be a option for North and Mid Wales families due to distance.

So in conclusion there is a urgent need for a Mother and baby unit in North Wales for many families and I would not like to see other families go through the difficulties which we did in 2019. I hope that 2022 will be a year of change for Perinatal Mental Health Care in North Wales, and as I mentioned above the lack of beds across the UK which I believe the UK Government needs to ensure more beds for mothers in crisis at a time of need due to mental health complications during and after pregnancy giving support and high standards of care at a difficult time for mothers and their families. It appears obvious that the care isn't and hasn't been in place for a number of decades and that is why you can't see enough evidence for demand to have a standalone unit in North Wales. To say that, why is there a unit in Swansea, that may as well have been placed in Bristol!!

I have had lots of support and messages and individuals backing me and sharing stories while I was sharing the petition on Facebook and Instragram. Also having media attention and coverage BBC Wales, S4C, BBC radio Wales, Radio Cymru, Free press Denbighshire, Daily Post North Wales and recently ITV Wales all of who are supporting me and I'm still in contact with and are waiting for your response to this petition. And backing of MP'S and three charities NSPCC, APP (Action on Postpartum Psychosis) and Ftww (Fair Treatment for the women of Wales) who are very supportive of this petition and also agree with me in the points that I have raised in this email and the petition itself.

So I please ask you the Committee to think and understand my reasons for starting this petition and all the points in this email and consider for this to go to the Senedd for the discussion it deserves.

Kind regards,

Mother and Baby Unit Briefing

A joint briefing for the Petitions Committee on why it is vital for there to be an accessible mother and baby unit (MBU) for families in North Wales.

Overview:

Today, on the 3rd of December 2021, the Senedd petitionⁱ by Nia Foulkes to get a MBU in North Wales comes to a close. As organisations, and informed by the views of many families - we know that it's crucial that women affected by severe perinatal mental health problems have access to a specialist MBU close to home. It's not acceptable that acutely unwell women are being admitted to MBU's far from home or are receiving treatment in an inpatient adult psychiatric ward without their babies, at a time that is so crucial for bonding and attachment.

It has been four years since the Welsh Government committed to considering options for inpatient support for women in North Walesⁱⁱ, but this provision has not yet been established. Without this specialist support, women lives are being put at risk. Action on Postpartum Psychosis (APP), NSPCC Cymru/Wales, the Maternal Mental Health Alliance (MMHA) and the Royal College of Psychiatrists Wales call on the Petitions Committee to press Welsh Government for action on delivering an MBU in North Wales.

A MOTHER & BABY UNIT IS VITAL FOR FAMILIES IN NORTH WALES

"I live in North Wales, and I was separated from my daughter and treated in a general psychiatric hospital when I was ill with postpartum psychosis. This was incredibly traumatic for me and my family and it took me a long time to recover."

Sally



What is an MBU?

MBU's are specialist, in-patient units for women who experience severe mental health problemsⁱⁱⁱ in pregnancy, or within a year after birth. MBU's are designed and resourced to offer specialist treatment to mums for their mental health difficulties, while also supporting them to meet the physical and emotional needs of their infants and to develop healthy relationships^{iv}. They are specifically designed to keep mothers and babies together.

Why are MBU's needed?


As many as 1 in 4 women can develop mental health problems during pregnancy or within the first year after having a baby (known as the perinatal period). For every 1000 mums, about 2-4 will need admission to hospital for a severe perinatal mental health problem^v. It is nationally recommended that this is to an MBU^{vi}.

If perinatal mental health problems are not identified early and the right support put in place, it can have devastating consequences on the mental and physical health of women, their children, partners and significant others. The new Saving Lives, Improving Mothers' Care (2021) report shows that maternal suicide continues to be a leading cause of direct deaths in the year after pregnancy^{vii}. With 18% of the

women dying by suicide. The report found that 67% of these suicides could possibly have been prevented if there had been improvements in care. Severe perinatal mental health problems can also make it harder for parents to provide the sensitive and responsive care that babies need, potentially affecting the child’s emotional, social and cognitive development^{viii}. This is why it is so important that women and families can access the right kind of support, at the right time, wherever they live in Wales.

MBU Provision

Service provision remains fragmented, with 22 MBU’s throughout the UK, including the newly opened interim unit in South Wales^{ix}. There is currently no accessible MBU for women and families in North Wales.



Current Plans

In 2017, Welsh Government committed to considering options for inpatient support for women in North Wales^x, as part of their response to the Children, Young People and Education Committee inquiry into perinatal mental health^{xi}. While we welcome Welsh Government’s commitment to prioritising MBU provision in North Wales^{xii} and the ongoing work between the Welsh Health Specialist Services Committee and NHS England to develop an eight-bed mother and baby unit for women in North Wales^{xiii}, we are concerned that this is taking too long, and plans are still too vague.

Our Calls

APP, NSPCC Cymru/Wales, MMHA and the Royal College of Psychiatrists Wales call on the Petitions Committee to press Welsh Government for action on delivering MBU provision for families from North Wales. We feel it would be helpful for the Petitions Committee to scrutinise the current status of the MBU for North Wales, explore challenges to progress and press the Welsh Government for a timeline about when decisions will be made and when this provision will be available for mothers and babies. As organisations, we have also raised the need for scrutiny around an

accessible unit for families in North Wales in our joint response to the Children, Young People & Education Committee consultations on priorities for the Sixth Senedd. We feel that addressing these questions within a joint Senedd Debate with the Children, Young People & Education Committee would be particularly helpful.

Questions for Welsh Government:

- Can the Welsh Government provide detail on the current status of the work to develop MBU provision for families in North Wales?
- Can the Welsh Government shed light on what the current challenges or barriers are to progressing the development of the MBU for North Wales?
- Can the Welsh Government give an anticipated timescale for the work that needs to be carried out to develop the MBU for North Wales?
- When does the Welsh Government anticipate MBU provision for families in North Wales being opened?
- How are women and families with lived experience from North Wales being consulted/involved in the service design of the unit?
- Can the Welsh Government provide detail on how Welsh language provision be provided within the unit?

Contact Details

We would be pleased to talk to the Committee in person about this petition and the areas we have outlined in this letter if that would be helpful. If you have any further questions, please don't hesitate to contact us:

Dr. Sarah Witcombe-Hayes
Senior Policy Researcher, NSPCC Cymru
And Wales Coordinator, Maternal Mental Health Alliance
Sarah.Witcombe-Hayes@nspcc.org.uk

Liz Williams
Policy Officer, Royal College of Psychiatrists Wales
Liz.Williams@rcpsych.ac.uk

Dr. Jessica Heron
CEO, Action on Postpartum Psychosis
jess@app-network.org

ⁱ See: [To get a specialist mental health mother and baby unit in North Wales. - Petitions \(senedd.wales\)](#)

ⁱⁱ See [gen-ld11290-e.pdf \(senedd.wales\)](#) – Recommendation 7

ⁱⁱⁱ This can include postpartum psychosis, bipolar affective disorder, schizophrenia, and other psychotic illnesses, severe depression or anxiety disorders.

^{iv} For more information on MBU's, see Royal College of Psychiatrists (2018) [Mother and Baby Units \(MBUs\)](#)

-
- ^v Royal College of Psychiatrists (2015) Perinatal mental health services: Recommendations for the provision of services for childbearing women. College Report CR197
- ^{vi} NICE Antenatal and postnatal mental health: clinical management and service guidance. Clinical guideline [CG192] Published date: December 2014 Last updated: Feb 2020 [Overview | Antenatal and postnatal mental health: clinical management and service guidance | Guidance | NICE](#)
- ^{vii} Knight, M., Bunch, K., Tuffnell, D., Patel, R., Shakespeare, J., Kotnis, R., Kenyon, S., and Kurinczuk, J. J (Eds.) (2021) [Saving Lives, Improving Mothers' Care Lessons learned to inform maternity care from the UK and Ireland Confidential Enquiries into Maternal Deaths and Morbidity 2017-19](#) MBRRACE-UK
- ^{viii} See Stein, A., Pearson, R.M., Goodman, S.H., Rapa, E., Rahman, A., McCallum, M., Howard, L.M., and Pariante, C. M (2014) Effects of perinatal mental disorders on the fetus and child. *The Lancet*, 384: 1800–1819; Sutter-Dalley, A. L., Murraray, L., Dequae-Merchadou, L., Glatigny-Dalley, E., Bourgeois, M.L., and Verdoux H. A (2011) A prospective longitudinal study of the impact of early postnatal vs. chronic maternal depressive symptoms on child development. *European Psychiatry*, 26(8): 484-489
- ^{ix} For more information, see MMHA (2021) [Accredited Mother and Baby Units](#)
- ^x See [gen-ld11290-e.pdf \(senedd.wales\)](#) – Recommendation 7
- ^{xi} Children, Young People and Education Committee (2018) [Perinatal mental health in Wales](#)
- ^{xii} See for example the response from the Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing to written question WQ83645 (e), Tabled on 20/10/2021. [Written Question - WQ83645 - Welsh Parliament \(senedd.wales\)](#); [Children, Young People, and Education Committee 07/10/2021 - Welsh Parliament \(senedd.wales\)](#) point 115. [Plenary 12/10/2021 - Welsh Parliament \(senedd.wales\)](#) point 103
- ^{xiii} See for example the response from the Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing to written question WQ83647 (e) Tabled on 20/10/2021. [Written Question - WQ83647 - Welsh Parliament \(senedd.wales\)](#)

P-06-1233 Diddymu Rheoliadau Coronafeirws a dod â holl gyfyngiadau COVID-19 i ben

Y Pwyllgor Deisebau | 24 Ionawr 2022
Petitions Committee | 24 January 2022

Cyfeirnod: SR211626-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1233

Teitl y ddeiseb: Diddymu Rheoliadau Coronafeirws a dod â holl gyfyngiadau COVID-19 i ben

Testun y ddeiseb:

Dylid diddymu holl gyfyngiadau COVID, adfer iawnderau sifil a rhyddid cymdeithasol a chynyddu ffocws ar addysg, arweiniad, cyngor ac arferion gorau. Dylid caniatáu'r rhyddid i ddewis o blaid iechyd meddwl: Gall y rheini sy'n dymuno ynysu yn eu cartrefi gael rhwydd hynt i wneud hynny, felly hefyd y rheini sy'n dymuno dychwelyd i fywyd normal.

1. Cefndir: Y Rheoliadau

Er mis Mawrth 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheoliadau i ddiogelu iechyd pobl o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 er mwyn rheoli effaith y pandemig. Mae'r rheoliadau wedi cael eu diwygio'n aml i ystyried newidiadau yn ystod y pandemig.



Mae'r rheoliadau cyfredol yn nodi rheolau'r pedair lefel, a nodir yn eu tro gan Lywodraeth Cymru yng [Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws](#), sy'n amrywio o ofyniad i aros gartref o dan lefel 4 i gyfyngiadau ar gynulliadau a digwyddiadau o dan lefel 1. Maent hefyd yn pennu rheolau sy'n berthnasol i bob lefel rhybudd, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i bobl wisgo gorchuddion wyneb mewn sefyllfaoedd a lleoedd penodol.

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r weithdrefn frys a nodir yn [Adran 45R](#) o'r Ddeddf i wneud rheoliadau diogelu iechyd. O dan y weithdrefn hon, mae modd gwneud rheoliadau heb osod drafft gerbron y Senedd a gofyn iddi ei gymeradwyo, os yw'r sawl sy'n gwneud y rheoliadau yn datgan ei fod o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud hyn. Rhaid i reoliadau o'r fath gael eu [cymeradwyo gan y Senedd](#) cyn pen 28 diwrnod (gellir estyn y cyfnod hwnnw o dan amgylchiadau penodol). Nid yw'r Senedd wedi pleidleisio i wrthod unrhyw reoliadau diogelu iechyd yn ystod y pandemig.

2. Dirymu'r rheoliadau

Byddai Llywodraeth Cymru yn gallu dirymu'r rheoliadau diogelu iechyd drwy wneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Gwneir y rheoliadau dros dro. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, y dyddiad y daw'r rheoliadau i ben yw 25 Chwefror 2022.

Mae'r rheoliadau'n cynnwys gofyniad hefyd i Lywodraeth Cymru adolygu, bob 21 diwrnod, a oes angen y cyfyngiadau a'r gofynion a osodwyd gan y rheoliadau, ac a ydynt yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio'i gyflawni drwyddynt.

3. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r ddeiseb ar 15 Rhagfyr, pan roedd Cymru ar lefel rhybudd 0.

Yn yr ymateb, mae'r Gweinidog yn cydnabod bod rhai mesurau i ymateb i'r pandemig wedi bod yn heriol iawn, ond mae'n dweud bod eu hangen i atal lledaeniad y feirws, achub bywydau a diogelu'r GIG.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod adolygiadau 21 diwrnod Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau yn cynnwys cydbwysu'r niwed uniongyrchol a ddaw yn sgil y

coronafeirws â'r effaith gymdeithasol ehangach, yr effaith economaidd a'r effaith ar lesiant pobl.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1233
Ein cyf/Our ref EM/14343/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr 25 Tachwedd mewn perthynas â'r ddeiseb oddi wrth Lauren M yn galw am ddiwedd ar yr holl fesurau amddiffyn rhag y coronafeirws.

Rwyf yn cydnabod yn llawn bod rhai o'r mesurau sydd wedi'u cyflwyno mewn ymateb i'r coronafeirws wedi bod yn heriol iawn i bobl a busnesau ledled Cymru. Mae'r rhain wedi bod yn angenrheidiol, er hynny, i atal lledaeniad y feirws ofnadwy hwn, i achub bywydau ac i ddiogelu'r GIG.

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu. Mae brechu wedi helpu i wanhau'r cysylltiad rhwng haint, salwch difrifol a gorfod mynd i'r ysbty ond nid yw wedi torri'r cysylltiad hwnnw yn llwyr. Mae hyn yn erbyn cefndir o bwysau brys ac argyfwng cynyddol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd i'w cymharu â'r rhai a welir fel rheol yn ystod cyfnodau anodd y gaeaf.

Yn yr ychydig wythnosau diwethaf mae'r amrywiolyn Omicron newydd wedi dod i'r amlwg. Mae hwn yn ddatblygiad difrifol arall yn y pandemig ac yn un yr ydym yn ei gymryd o ddifrif. Rydym yn gobeithio na fydd yr amrywiolyn newydd hwn yn arwain at fesurau pellach. Cedwir y rheolau presennol o dan ystyriaeth wrth inni ddysgu mwy am Omicron a pha mor bell y mae wedi lledaenu yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Rheoli'r Coronafeirws wedi'i ddiweddarau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn nodi ein hymagwedd at y pandemig dros yr hydref a'r gaeaf. Mae'n nodi ein ffocws parhaus ar frechu fel ein hamddiffyniad mwyaf effeithiol. Rydym wrthi'n ehangu'r rhaglen frechu yng Nghymru, yn unol â'r cyngor diweddaraf gan JCVI ac mewn ymateb i amrywiolyn Omicron, gan drefnu bod pigiadau atgyfnerthu ar gael i bob oedolyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cymru'n dal i fod ar lefel rhybudd sero. Mae'r mesurau hyn ar eu lefel isaf ers i'r pandemig ddechrau. Nid oes unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl a all gwrdd, gan gynnwys mewn cartrefi preifat, mannau cyhoeddus neu mewn digwyddiadau. Yn ogystal â hynny, gall pob busnes a sefydliad agor.

Er hynny, nid ydym eto wedi cyrraedd sefyllfa lle gallwn ddileu pob amddiffyniad ac – yn unol â'r cyngor gwyddonol ac iechyd cyhoeddus diweddaraf – rydym yn cadw rhai rheolau allweddol ar waith yn y gyfraith. Yn hyn o beth mae angen cydgyfrifoldeb yn hytrach na dewis personol.

- Rhaid i fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill barhau i gynnal asesiad risg coronafeirws a chymryd mesurau rhesymol i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu.
- Rhaid i bawb barhau i hunanynysu am 10 diwrnod os byddant yn cael prawf COVID-19 positif. Os ydych wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n positif ac os ydych yn 18 oed neu drosodd ac nad ydych wedi cael eich brechu'n llawn, rhaid i chi hunanynysu am 10 niwrnod hefyd. Rhaid i holl gysylltiadau achos Omicron sydd wedi'i gadarnhau neu a amheuir hunanynysu am 10 niwrnod, p'un a ydynt wedi'u brechu neu beidio.
- Rhaid i oedolion a phlant dros 11 oed barhau i wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, ac eithrio lleoliadau lletygarwch megis bwytai, tafarndai, caffis neu glybiau nos.
- Mae Pàs COVID y GIG yn orfodol i brofi eich bod wedi'ch brechu neu'ch bod wedi profi'n negyddol er mwyn cael mynediad at ddigwyddiadau mawr, clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd.

Rhaid i Reoliadau'r Coronafeirws gael eu hadolygu bob 21 diwrnod i sicrhau eu bod yn dal yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cydbwysu'r niwed uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws ag effaith gymdeithasol, economaidd a llesiant mesurau. Mae'r rheoliadau wedi'u hamserlennu i ddod i ben ar 25 Chwefror.

Rwyf yn glir bod y mesurau sydd ar waith yn dal yn angenrheidiol os ydym yn mynd i ddiogelu Cymru gyda'n gilydd.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

P-06-1236 Dylai menywod gael eu sgrinio'n rheolaidd gyda phrawf gwaed o'r enw CA125 i ganfod canser yr ofari.

Y Pwyllgor Deisebau | 24 Ionawr 2022
Petitions Committee | 24 January 2022

Cyfeirnod: SR21/1626

Rhif y ddeiseb: [P-06-1236](#)

Teitl y ddeiseb: Dylai menywod gael eu sgrinio'n rheolaidd gyda phrawf gwaed o'r enw CA125 i ganfod canser yr ofari.

Testun y ddeiseb:

Dylai menywod gael eu sgrinio'n rheolaidd gyda phrawf gwaed o'r enw CA125 i ganfod canser yr ofari.

Mae fy mam wedi cael diagnosis diweddar o ganser sylfaenol yr ofari a chanser eilaidd y peritonewm. Pe bai menywod yn cael eu sgrinio'n rheolaidd gyda'r prawf gwaed CA125 byddai modd canfod arwyddion cynnar, fel maent yn sgrinio ar gyfer canser ceg y groth a mamogramau ar gyfer canser y fron. Mae canser yr ofari yn ganser tawel, a phan mae menywod yn cael unrhyw symptomau mae'r canser fel arfer wedi cyrraedd cam mwy datblygedig. Byddai canfod y canser yn gynnar yn golygu y gellid trin menywod yn gynt ac osgoi marwolaethau.



1. Cefndir

Siarad am ganser.

Mae [ystadegau](#) a gyhoeddwyd gan Cancer Research UK yn dangos mai:

- cancer yr ofari yw'r chweched cancer mwyaf cyffredin ymhlith merched yn y DU, ac mae'n cyfrif am 4% o'r holl achosion newydd o ganser ymhlith merched (2016-2018). Ar gyfartaledd, roedd 375 o achosion newydd bob blwyddyn yng Nghymru (rhwng 2016 a 2018);
- cancer yr ofari yw'r chweched achos mwyaf cyffredin o farwolaeth oherwydd cancer ymhlith merched yn y DU, ac mae'n cyfrif am 5% o'r holl farwolaethau oherwydd cancer ymhlith merched (2018). Yng Nghymru, bu farw 224 o ferched yn 2018 oherwydd cancer yr ofari;
- mae 71.7% o ferched yn goroesi cancer yr ofari am flwyddyn o leiaf, ond dim ond 42.6% sy'n goroesi am bum mlynedd neu ragor.

Gall symptomau cancer yr ofari fod yn anelwig ac yn debyg i gyflyrau eraill sy'n fwy cyffredin ac yn llai difrifol. Gall hyn ei gwneud hi'n anodd cael diagnosis cynnar, cyn i'r cancer ledu. Fel yn achos canserau eraill, mae diagnosis cynnar yn arwain at ganlyniadau gwell. Yn ôl [Cancer Research UK](#):

More than 9 in 10 women diagnosed with ovarian cancer at its earliest stage survive their disease for at least 5 years. This falls to just over 1 in 10 women when ovarian cancer is diagnosed at the most advanced stage.

Mae [Cymorth Cancer Macmillan](#) hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth a chymorth i'r rhai sydd â chanser yr ofari.

Ar hyn o bryd, [nid yw Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU \(UKNSC\)](#), sy'n rhoi cyngor annibynnol, arbenigol i weinidogion a'r GIG ym mhob un o bedair gwlad y DU, yn argymhell y dylid sgrinio poblogaethau am ganser yr ofari.

Deiseb flaenorol ynghylch sgrinio ar gyfer cancer yr ofari

Cafodd deiseb ar y mater hwn ei hystyried gan Bwyllgor Deisebau'r Pedwerydd Cynulliad y 2016 - [P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Cancer yr Ofari \(prawf gwaed CA125\)](#). Roedd y ddeiseb yn galw am:

- raglen sgrinio genedlaethol i ferched dros 50 oed, gan ddefnyddio prawf gwaed CA125;

- codi ymwybyddiaeth meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill o ganser yr ofari a'i symptomau.
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ganser yr ofari/symptomau.

Cyhoeddodd Pwyllgor Deisebau'r Pumed Cynulliad [adroddiad](#) ar ei drafodaeth ar y ddeiseb ym mis Chwefror 2017. Nodwyd y canlynol:

At ei gilydd, er bod y deisebydd wedi rhoi tystiolaeth gref o bwysigrwydd diagnosis cynnar a thrin cancer yr ofari yn gynnar, rydym yn cydnabod nad yw'r dystiolaeth gyfredol yn cefnogi'r syniad o gyflwyno rhaglen sgrinio poblogaethau, gan ddefnyddio naill ai'r prawf gwaed CA125 neu ddull arall.

Tynnodd adroddiad y Pwyllgor sylw at farn elusennau cancer, nad oeddent yn gefnogol i'r syniad o gyflwyno rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer cancer yr ofari, gan nad oedd y dystiolaeth hyd yn hyn yn dangos y byddai'n lleihau marwolaethau oherwydd cancer yr ofari. Dywed yr adroddiad:

Rydym yn credu bod y sefyllfa bresennol wedi'i chrynhai'n daclus yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Ovarian Cancer Action:

"Screening tests can have a range of unintended consequences from anxiety to unnecessary surgery in extreme cases. We believe that currently testing levels of CA125 is not yet specific or accurate enough to risk being used as a national screening tool. Funding would be better spend at this time on a national symptoms public awareness campaign."

Tynnodd adroddiad y Pwyllgor sylw hefyd at dreial UKCTOCS sy'n mynd rhagddo i ystyried sgrinio poblogaethau'n gyffredinol ar gyfer cancer yr ofari (mae rhagor o wybodaeth isod). Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r sefyllfa'n ofalus, a rhoi ystyriaeth fanwl i unrhyw dystiolaeth newydd mewn perthynas â rhaglen sgrinio genedlaethol.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor ei [drafod yn y Cyfarfod Llawn](#) ym mis Mawrth 2017.

Treial Cydweithredol y DU o Sgrinio am Ganser yr Ofari (UKTOCS)

Dechreuodd y treial yn 2001. Ei brif nod oedd gweld a oedd naill ai prawf gwaed CA125 neu sgan uwchsain drwy'r wain yn ddigon cywir i'w ddefnyddio fel prawf sgrinio. Cyhoeddwyd [y canlyniadau tymor hir](#) yn 2021.

Nid oedd y tîm yn argymhell y dylid defnyddio'r prawf gwaed CA125 na'r sgan uwchsain drwy'r wain fel profion sgrinio ar gyfer cancer yr ofari. Daethant i'r

casgliad nad oedd sgrinio ar gyfer cancer yr ofari gan ddefnyddio'r naill ddull na'r llall yn helpu pobl i fyw'n hirach.

2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn nodi y dylid archwilio merched yr amheuir bod ganddynt symptomau cancer, neu sydd â risg uchel o gael cancer yr ofari, yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Mae'r canllawiau presennol yn dweud y dylai menywod sydd â symptomau cancer yr ofari gael prawf gwaed CA125 er mwyn gweld a oes angen iddynt gael archwiliad uwchsain. Fodd bynnag, gwneir hyn i ymchwilio i achosion lle mae amheuaeth glinigol y gallai fod gan fenyw ganser, yn hytrach na fel rhan o raglen sy'n sgrinio poblogaeth yn rheolaidd, gan nad yw'r prawf presennol yn ddigon cywir ar gyfer y diben hwnnw.

Mae'n dweud bod yr holl raglenni sgrinio asymptomatig ar gyfer poblogaethau'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae'n cyfeirio at rôl Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC). Fel y nodwyd eisoes, nid yw UKNSC ar hyn o bryd yn argymhell y dylid sgrinio poblogaethau ar gyfer cancer yr ofari. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud:

Os bydd UKNSC yn newid ei argymhelliad, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir rhoi hyn ar waith yng Nghymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1236
Ein cyf/Our ref EM/14336/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

**DEISEB P-06-1236 – DYLAI MENYWOD GAEL EU SGRINIO’N RHEOLAIDD AR GYFER
CANSER YR OFARI DRWY GAEL PRAWF GWAED O’R ENW CA125**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod cynifer o fathau o ganser â phosibl yn cael eu canfod yn gynharach pan fônt yn haws eu trin, ac rydym yn disgwyl i ofal sylfaenol ymchwilio i symptomau menywod yr amheuir y gallai fod ganddynt ganser neu sydd â risg uchel o gael canser yr ofari, yn unol â chanllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Mae’r canllawiau presennol yn dweud y dylai menywod sydd â symptomau canser yr ofari gael prawf gwaed CA125 er mwyn gweld a oes angen iddynt gael archwiliad uwchsaïn. Fodd bynnag, gwneir hyn i ymchwilio i achosion lle mae amheuaeth glinigol y gallai fod gan fenyw ganser, yn hytrach na fel rhan o raglen sy’n sgrinio poblogaeth yn rheolaidd, gan nad yw’r prawf presennol yn ddigon cywir ar gyfer y diben hwnnw. Rydym yn parhau i annog menywod i gael cyngor prydlon gan eu timau gofal sylfaenol os oes ganddynt symptomau sy’n awgrymu y gallai fod ganddynt ganser.

Mae’r holl raglenni sgrinio asymptomatig ar gyfer poblogaethau yn cael eu datblygu a’u darparu’n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac maent yn cael eu hadolygu’n rheolaidd. Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn rhoi cyngor arbenigol annibynnol ar sgrinio i holl Weinidogion y DU, ac ar hyn o bryd nid yw’n argymhell sgrinio ar gyfer canser yr ofari.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe wnaeth y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol ystyried sgrinio ar gyfer canser yr ofari yn 2017, a bu'n edrych ar ddata clinigol yr *United Kingdom Collaborative Trial of Ovarian Cancer Screening*, lle y cafodd menywod eu sgrinio ar gyfer y canser hwn. Yn y treial, gwelwyd na wnaeth y sgrinio leihau nifer y menywod a fu farw o ganser yr ofari. Bydd y treial yn parhau i ddilyn y menywod a gafodd eu sgrinio, a chytunodd y pwyllgor i adolygu'r canlyniadau tymor hirach pan fyddant yn cael eu cyhoeddi. Pe bai Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn newid ei argymhelliad, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid gweithredu hynny yng Nghymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Graddau a Aseswyd gan Athrawon ar gyfer dysgwyr na allent sefyll arholiadau TGAU ym mis Tachwedd

Y Pwyllgor Deisebau | 24 Ionawr 2022
Petitions Committee | 24 January 2022

Cyfeirnod: SR22/1626

Rhif y ddeiseb: P-06-1237

Teitl y ddeiseb: Ystyried defnyddio Graddau a Aseswyd gan Athrawon ar gyfer dysgwyr na allent sefyll arholiadau TGAU ym mis Tachwedd oherwydd prawf COVID positif. Dylid sicrhau bod trefniadau tecach ar waith ar gyfer arholiadau mis Mai.

Geiriad y ddeiseb: Roedd fy mab, sydd ym mlwyddyn 11, wedi paratoi'n llawn i sefyll ei arholiadau Rhifedd TGAU ar 2 a 4 Tachwedd. Ar 31 Hydref, cymerodd brawf llif unffordd yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru. Roedd y prawf hwn yn bositif, a dilynwyd hyn gan brawf PCR positif. Roedd hyn yn golygu na allai sefyll ei arholiadau er bod yr ysgol wedi'i baratoi'n drylwyr ar eu cyfer yn ddiweddar. Ni ddylai fod o dan anfantais oherwydd y pandemig - ac ni ddylai pobl eraill sydd â Covid fod o dan anfantais chwaith. Maent wedi gweithio mor galed i gyrraedd y pwynt hwn.

Nid yw negeseuon e-bost gan y bwrdd arholi a Llywodraeth Cymru yn gefnogol o gwbl



1. Arholiadau Haf 2021

Ar 10 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd na fyddai arholiadau diwedd blwyddyn yn 2021. Ar 20 Ionawr 2021, cyhoeddodd y byddai cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch dysgwyr yn cael eu dyfarnu drwy fodel Gradd a Benderfynir gan y Ganolfan. Roedd hyn yn golygu y byddai graddau'n cael eu pennu gan ysgolion a cholegau (canolfannau) yn seiliedig ar eu hasesiad o waith dysgwyr. Defnyddiodd y canolfannau amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth, i farnu "cyrhaeddiad dangosedig" disgyblion a dyfarnu gradd briodol iddynt.

2. Arholiadau mis Tachwedd

Cynhaliwyd arholiadau TGAU mis Tachwedd 2021 yn ôl yr arfer cyn y pandemig. Yn gyffredinol mae arholiadau mis Tachwedd yn cael eu sefyll gan y rhai sy'n ailsefyll arholiadau TGAU er mwyn cael gradd well. Mae hefyd ymgeiswyr 'mynediad cynnar' a all sefyll rhai arholiadau cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Caiff yr ymgeiswyr hyn gyfle i sefyll yr arholiad eto yng nghyfres arholiadau'r haf.

Nifer cyfyngedig o bynciau sydd ar gael yng nghyfres mis Tachwedd o gymharu â chyfres yr haf. Ym mis Tachwedd 2021, bu dysgwyr yng Nghymru yn sefyll cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Mathemateg, Mathemateg – Rhifedd, Cymraeg Iaith a Saesneg Iaith.

3. Haf 2022

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y byddai arholiadau yn haf 2022. Nodwyd y byddai'r gofynion asesu ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch CBAC, a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu haddasu i leihau effaith yr amser addysgu a dysgu wyneb yn wyneb a gollwyd yn ystod y pandemig; Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi dweud, os bydd cyfnodau sylweddol pellach o aflonyddwch sy'n arwain at ganslo cyfresi arholiadau yn y dyfodol, y bydd trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith.

4. Myfyrwyr sy'n sâl ar ddiwrnod arholiad

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau (corff aelodaeth sy'n cynnwys yr wyth darparwr cymwysterau mwyaf yn y DU) wedi cyhoeddi canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig

(Medi 2020). Ystyriaeth arbennig yw addasiad ar ôl arholiad i farc neu radd ymgeisydd. Mae hyn i adlewyrchu salwch dros dro, anaf dros dro neu ddigwyddiad arall y tu allan i reolaeth yr ymgeisydd ar adeg yr asesiad. Fe'i defnyddir pan fo'r mater neu ddigwyddiad wedi cael, neu'n rhesymol debygol o fod wedi cael, effaith sylweddol ar allu ymgeisydd i sefyll asesiad neu ddangos ei lefel cyrhaeddiad arferol mewn asesiad.

Mae llythyr y Gweinidog yn nodi na roddwyd unrhyw drefniadau wrth gefn penodol (fel defnyddio graddau a bennir gan y ganolfan, y mae'r ddeiseb yn galw amdanynt) ar waith rhag ofn na fyddai dysgwyr yn gallu sefyll eu harholiadau a drefnwyd ym mis Tachwedd oherwydd rhesymau'n ymwneud â COVID-19. Mae'r Gweinidog yn dweud y byddai disgwyl i ysgolion wneud hyn wedi effeithio'n anghymesur ar yr amser addysgu a dysgu a oedd ar gael. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod disgyblion sydd i fod i sefyll eu harholiadau yn gynnar ym mis Tachwedd yn cael cyfle arall i'w sefyll yn yr haf.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref JMEWL/11751/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd yn tynnu fy sylw at Ddeiseb P-06-1237, sef *“Ystyried defnyddio Graddau a Aseswyd gan Athrawon ar gyfer dysgwyr na allent sefyll arholiadau TGAU ym mis Tachwedd oherwydd prawf COVID positif. Dylid sicrhau bod trefniadau tecach ar waith ar gyfer arholiadau mis Mai.”*

Hoffwn eich sicrhau fy mod yn cydnabod bod yn rhaid i ddysgwyr barhau i addasu i heriau'r pandemig, ac o'r herwydd eu bod wedi cael blwyddyn anodd tu hwnt. Rwy'n parhau i gadw llygaid ar y sefyllfa iechyd cyhoeddus ac ar brofiad dysgwyr ac athrawon mewn ysgolion. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion fonitro data presenoldeb dysgwyr yn ofalus, ac i barhau i gynnal trafodaethau â'r sector addysg er mwyn deall lefel y problemau sydd wedi wynebu dysgwyr, yn enwedig y rheini sy'n mynd i sefyll arholiadau'n fuan, a sut y gellir lliniaru effaith y problemau hynny.

Mewn ymateb i'r ddeiseb, efallai y byddai'n ddefnyddiol yn y lle cyntaf i nodi diben y gyfres arholiadau ym mis Tachwedd, ac yna cynnig trosolwg o'r pecyn cyllid cynhwysfawr a gyhoeddwyd gennyf yn ddiweddar i gefnogi dysgwyr mewn blynyddoedd cymhwyster yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Mae cyfres arholiadau mis Tachwedd yn gyfle i ddysgwyr sydd eisiau ail sefyll arholiadau er mwyn gwella eu graddau o gyfres arholiadau flaenorol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr sefyll rhai arholiadau penodol yn gynnar, gyda cyfle arall i'w sefyll eto yn yr haf. Er fy mod yn cydnabod bod hyn yn peri siom i chi, dyma pam na roddwyd trefniadau wrth gefn penodol yn eu lle ar gyfer dysgwyr fel mab y deisebydd. Rwy'n deall bod hyn yn siom neu'n destun pryder i ddysgwyr sydd, yn anffodus, wedi profi'n bositif yn ystod y cyfnod hwn, ac o'r herwydd wedi methu â sefyll eu harholiadau yn ystod mis Tachwedd. Er hynny, byddai disgwyl i ysgolion a cholegau baratoi ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd a'u cynnal, a chyflwyno'r trefniadau wrth gefn hefyd ar gyfer y rheini na allai sefyll eu harholiadau, wedi cael effaith anghymesur ar yr amser dysgu ac addysgu sydd ar gael.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 62
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y gwyddoch, mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau eu bwriad i gynnal cyfres o arholiadau yn haf 2022, a dyma'r sefyllfa o hyd. Mae addasiadau wedi'u gwneud i fanylebau pynciau er mwyn lleihau cynnwys yr asesiadau ([Addasiadau CBAC – Haf 2022](#)) i adlewyrchu'r tarfu ar y dysgu ac addysgu. Mae amserlen yr arholiadau hefyd wedi'i chynllunio'n ofalus iawn i gynnwys trefniadau wrth gefn, gyda phapurau ar gyfer yr un pwnc ddeng niwrnod ar wahân er mwyn cynyddu'r cyfleoedd sydd gan ddysgwyr i gwblhau eu hasesiadau.

I gyd-fynd a'r gyfres arholiadau hon, sydd wedi'i haddasu, a chefnogi'r myfyrwyr sy'n ceisio am gymwysterau yn 2022, mae fy [natganiad](#) diweddar wedi cadarnhau pecyn cymorth cynhwysfawr sy'n werth £24m. Bydd y pecyn cymorth hwn yn sicrhau bod pob person ifanc sy'n ceisio am gymhwyster eleni yn gallu cael gafael ar gymorth ymarferol neu gyngor i'w helpu i baratoi ar gyfer arholiadau a'r camau nesaf, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Fel y dywedais yn fy natganiad, rwy'n credu mai arholiadau yw'r ffordd decaf i gael cymwysterau, yn enwedig yng nghyd-destun ehangach y Deyrnas Unedig, lle mae'n hanfodol bod ein pobl ifanc yn cael yr un cyfle â'u cyfeillion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig o ran derbyniadau prifysgol. Mae'n bwysig bod arholiadau'n cael eu hamserlennu ar gyfer diwedd y flwyddyn ysgol, sy'n cynyddu'r cyfnod ar gyfer dysgu a pharatoi. Rwy'n deall bod rhai dysgwyr yn pryderu wrth feddwl am y syniad o sefyll arholiadau ffurfiol am y tro cyntaf yr haf nesaf. Yn ychwanegol at yr ystod eang o [adnoddau](#) y mae CBAC wedi'u datblygu er mwyn cefnogi dysgu a pharatoi at arholiadau, gan gynnwys trefnwyr gwybodaeth, dysgu cyfunol ac arweiniad i'r arholiadau, bydd £7.5m o'r pecyn hwn yn cael ei roi i ysgolion i ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiad, gydag amser ac adnoddau addysgu ychwanegol. Bydd y cyllid yn helpu ysgolion i ymateb i'r hyn sydd wedi digwydd yn y byd addysg ers mis Medi oherwydd bod dysgwyr a staff yn hunan-ynysu.

Rwyf hefyd yn ymwybodol bod lefelau presenoldeb rhai dysgwyr wedi gostwng yn ystod y pandemig, a byddaf yn rhoi mwy na £7m i gefnogi dysgwyr ym Mlwyddyn 11 sydd â lefelau presenoldeb isel i'w helpu i gwblhau eu TGAU neu eu helpu i gyrraedd y cam nesaf yn eu haddysg. Ochr yn ochr â hyn, bydd cymorth presenoldeb i ddysgwyr mewn blynyddoedd eraill a chymorth ychwanegol i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef trawma neu sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r pecyn cefnogaeth hwn hefyd yn darparu £9.5m i golegau addysg bellach a chweched dosbarth er mwyn rhoi cymorth i bobl ifanc gyda'r broses o symud i'r cam nesaf yn eu haddysg neu eu gyrfa ac ar gyfer sesiynau i gael blas ar yrfaoedd galwedigaethol a diwrnodau agored, yn ogystal a pharhau gyda'r hwb 'Barod ar gyfer Prifysgol' mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored a phrifysgolion yng Nghymru. Mae hwn yn adnodd a ddatblygwyd y llynedd i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y brifysgol er mwyn iddynt allu symud yn llwyddiannus i'r camau nesaf. Mae'n dwyn stôr o adnoddau ynghyd, a fydd yn helpu myfyrwyr sy'n mynd i'r brifysgol am y tro cyntaf i fod yn '[Barod ar gyfer Prifysgol](#)' – dyma'r hwb cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.


Mae dysgu o brofiadau blaenorol a chydabod nad oes posibl darogan natur y pandemig o hyd, yn golygu bod rhaid i ni hefyd gael trefniadau wrth gefn yn eu lle. Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau mai'r trefniadau wrth gefn fydd y model graddau wedi'u pennu gan ganolfannau ac maent wedi rhoi cyngor i ysgolion a cholegau ynghylch y camau y gellir eu cymryd nawr i baratoi ar gyfer y [trefniadau wrth gefn](#) sydd wedi'u cyhoeddi petai'r sefyllfa iechyd cyhoeddus yn gwneud cynnal y gyfres arholiadau yn yr haf yn amhosibl. Bydd y

camau hyn yn caniatáu i ysgolion a cholegau ddefnyddio asesiadau sydd eisoes wedi'u cynllunio fel rhan o'u rhaglen dysgu ac addysgu – os bydd eu hangen maes o law er mwyn cefnogi'r trefniadau wrth gefn. Crëwyd y canllawiau yn dilyn ystyriaeth ofalus gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyr o'r flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn, gobeithio, yn osgoi sefyllfa lle mae dysgwyr yn cael eu gor-asesu ac athrawon, ysgolion a cholegau'n wynebu gwaith ychwanegol, a oedd yn hynod feichus yn ystod haf 2021.

Hoffwn gloi drwy sicrhau'ch etholwr a'r Pwyllgor Deisebau bod cynnydd a lles dysgwyr yn parhau'n flaenoriaethau allweddol i mi a byddaf yn parhau i gydweithio â phartneriaid ledled y sector addysg i ystyried pa gymorth pellach y gellid ei ddarparu i ddysgwyr sy'n paratoi ar gyfer eu cymwysterau i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i symud ymlaen.

Gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor Deisebau o ran cynnig peth cyd-destun i gyfres arholiadau mis Tachwedd a throsolwg o'r math o waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod heriol hwn i gefnogi dysgwyr sy'n sefyll arholiad am gymhwyster eleni. Diolch unwaith eto am dynnu fy sylw at y ddeiseb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a large 'J' followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

P-06-1237 Look at using Teacher Assessed Grades for learners unable to sit November GCSE exams as a result of a positive COVID test. Ensure fairer arrangements are in place for the May exams, Correspondence – Petitioner to Committee, 13.01.22

Response to JMEWL1175 in regards to P-06-1237

Thank you for the very thorough response, linked to relevant documentation. The response details all the adaptations that have been made to courses for GCSE as well as all the money being granted to schools to support learners. However, as I work in the secondary education sector, I can see first-hand that at present all of this funding is having very little to no impact on learners and the effects of Covid disrupted schooling. The response details that officials are talking to the education sector. There are very few staff/learners/parents who I speak to who think running examinations is fair this year. While I appreciate that in a 'normal' year, examinations are the fairest way to put our learners on an even playing field, this year has still been far from it.

Officials are said to be monitoring attendance of learners and teachers. How closely is this happening? Due to my son isolating, then one member of staff who teaches him isolating, followed by going straight into a mock exam series, there is one subject he has not had a lesson in since before October half term – another half a term with no teaching. How many other learners has this happened to? For those who have contracted Covid and had staff having to isolate, they are again at a disadvantage.

The response clearly explains the purpose of the November exam series – mainly for learners to resit if they wanted to improve grades from the previous year. However, as stated, it also allows some learners early entry. This was the case for my son's school. The fact there were no contingency plans in place shows no understanding of how schools adapt POLs (Programmes of Learning) and teaching to support and prepare learners for these exam series. It shows a complete lack of understanding as to how different schools in Wales prepare for exams across the year. Those unable to sit due to Covid have just been told they can resit in the summer. This already places them at a disadvantage as POLs have been rearranged to shift focus back to other exams that will be sat for the first time by the majority of learners. There will also be a shift in grading for summer 2022 – moving back towards pre-covid boundaries, again not allowing a level playing field for those unable to sit in November because of Covid (Qualification Wales letter 13/1/22). Learners

having to sit for the first time due to Covid will be treated differently to if they had been able to sit in November in terms of grading.

I am very aware of the course adaptations that have taken place to support learners taking GCSEs. However, in some subjects NEAs have been removed, adding extra pressure to the written exams. Unfortunately, this is now the case in four of my son's chosen subjects. In some courses, namely triple sciences, they have removed the practical NEA aspect while changing none of the course content for this year. Surely removing some of the course content and keeping the practical NEA would have been more beneficial to learners, allowing them to at least enter the exam with some marks behind them.

I appreciate the resources that have been developed by WJEC but how can you guarantee schools will be using these? Most subjects are still concerned that they will not cover course content. The money being pledged for this year group is unfortunately too late to have enough impact.

While I have seen the exam timetable for Summer 2022 and understand why exams have been spaced out to allow for any isolation periods, how can you guarantee learners won't suffer longer if they do test positive for Covid in the exam series. What contingency plans are in place for those? They will not have a chance to resit. The spacing out doesn't allow for learners to chunk their work and revision for specific exams. While it keeps them on a level playing field against peers this year, how can they be compared to learners in other years when entering the work and looking at grades on CVs?

On a personal note, since the disappointment of being unable to sit his exam, I have watched my able, laid back son turn into a shell of a boy who needed to be picked up off the bathroom floor over Christmas after suffering a severe panic attack. When speaking to the doctor the following day all he could talk about was the pressure he is feeling this year – a story that is being relayed by many, many learners. Today, (13/1) he watched as his friends opened their results and rejoiced. Tonight, we are trying to pick up the pieces again and trying to keep him motivated. These are the stories the officials need to be listening to and reporting back as this is the real impact of Covid. Money will not fix this in such a short space of time.

Gwahardd polystyren a phlastigau untro eraill

Y Pwyllgor Deisebau | 24 Ionawr 2022
Petitions Committee | 24 January 2022

Cyfeirnod: SR21/1626/7

Rhif y ddeiseb: P-06-1238

Teitl y ddeiseb: Gwahardd polystyren a phlastigau untro eraill

Geiriad y ddeiseb: Ar 3 Gorffennaf 2021, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gwahardd amrywiaeth o blastigau untro, gan gynnwys polystyren, cyllyll a ffyrc plastig, gwellt yfed, cwpanau a hyd yn oed ffyn bach plastig gyda gwllân cotwm ar bob pen. Mae gwaharddiad llwyr ar draws pob un o'r aelod-wladwriaethau. Rwy'n credu y dylai Cymru ddilyn y camau hyn ac y dylen ni hefyd wahardd yr eitemau hyn.

Mae llawer o fwytai cludfwyd yng Nghymru yn dal i ddefnyddio cannoedd o gynhwysion polystyren bob dydd am mai dyma'r opsiwn rhataf.

Cefnogwch hyn os gwelwch yn dda.

Manylion ychwanegol:

Ni ellir ailgylchu polystyren ac mae'n cael effaith drychinebus ar yr amgylchedd; mae hefyd yn wenwynig pan gaiff ei adael yn yr amgylchedd.



1. Cefndir

Ceir cydnabyddiaeth eang bod materion amgylcheddol sylweddol yn codi yn sgil ymddygiadau amhriodol wrth ddefnyddio a gwaredu eitemau plastig untro fel cynwysyddion bwyd cludfwyd. Yn ystod y [Great British Beach Clean 2021](#) gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, plastig neu bolystyren oedd 75 y cant o'r holl sbwriel a gasglwyd.

Mewn adroddiad a gomisiwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018, sef [Options for Extended Producer Responsibility in Wales](#), amcangyfrifwyd bod tua 950 tonnell o wastraff pecynnu cludfwyd yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru bob blwyddyn. Amcangyfrifir mai dim ond 8.5 y cant ohono sy'n cael ei ailgylchu Dywed yr adroddiad:

We estimate that takeaway food packaging waste (which includes expanded polystyrene (EPS) containers) accounts for 1.6% of litter by weight on the ground and in litter bins, but accounts for a larger proportion overall by volume.

Ymhlith y deunyddiau na ellir eu hailgylchu, un o'r rhai mwyaf trafferthus ohonynt yw polystyren ehangedig (EPS) neu bolystyren ewyn. Mae'n eithriadol o ysgafn ac yn ddeunydd insiwleiddio da, ac felly, mae'n effeithiol o ran cadw bwyd yn gynnes. Mae [Cadwch Gymru'n Daclus](#) yn nodi, yn ogystal â pheidio â chael ei ailgylchu'n gyffredin, ei fod:

- yn ysgafn ac felly'n hawdd ei symud gan y gwynt a'r dŵr;
- yn torri i fyny yn ddarnau bach, sy'n golygu ei fod yn anodd ei gasglu wrth lanhau; ac
- yn aros yn yr amgylchedd am amser hir iawn.

Camau gweithredu y tu allan i Gymru

Daeth [Cyfarwyddeb yr UE ar Blastigau Untro](#) i rym yn 2019. O fis Gorffennaf 2021, mae rhai plastigau untro wedi'u gwahardd o farchnad yr Aelod-wladwriaethau.

Ym mis Mai 2019, fe wnaeth Ysgrifennydd yr Amgylchedd ar y pryd, Michael Gove, [gadarnhau gwaharddiad ar wellt plastig troellwyr diodydd, a ffyn cotwm â choesyn plastig](#) yn Lloegr o fis Ebrill 2020. Cafodd hyn ei ohirio oherwydd pandemig Covid-19, ond daeth i [rym ym mis Hydref 2020](#).

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 18 Mawrth, fe wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru gyhoeddi ei bwriad i wahardd gwellt plastig, cyllyll a ffyrç plastig, cyfarpar polystyren i ddal bwyd a diod ac ystod o eitemau plastig untro eraill. Cafodd ymgyngoriad ar gynigion i leihau plastig untro yng Nghymru ei gynnal yn 2020. Mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ailddatgan ei bwriad i ddeddfu i ddiddymu plastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer yr economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu, sy'n cynnwys fel un o'i phrif gamau y nod o "roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen". Mae hefyd yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu opsiynau ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau plastig a chynwysyddion bwyd tafladwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni nifer o ymrwymïadau Mwy nag Ailgylchu drwy Ddeddf yr Amgylchedd 2021 y DU. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr a chynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, ailadroddodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, uchelgais Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r defnydd o'r plastigau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel amlaf, a thynnodd sylw at yr ymgynghoriad uchod.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod cyflwyno *Deddf y Farchnad Fewnol 2020* wedi cymhlethu pethau, gan gyfeirio at ansicrwydd ynghylch ymarferoldeb gwaharddiad, gan y gallai unrhyw blastigau untro sydd wedi'u gwahardd yng Nghymru ond a ganiateir neu a fewnforir i weddill y DU gael eu gwerthu yng Nghymru o hyd. Codwyd cwestiynau ynghylch effaith gwaharddiad ar fusnesau Cymru.

Fe wnaeth y Gweinidog dynnu sylw at yr her gyfreithiol barhaus i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, gan egluro bod Llywodraeth Cymru yn gallu gwahardd y defnydd o blastigau yng Nghymru, ond nid eu gwerthiant. Disgrifiodd y Gweinidog y sefyllfa fel 'nonsens', a dywedodd fod 'sgwrs barhaus' yn digwydd ar y mater. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r ddeiseb hon, dywed y Gweinidog:

...rydym yn cymryd pob cam angenrheidiol i gyflwyno deddfwriaeth cyn gynted â phosibl yn ystod tymor y Senedd hon, i gyflwyno'r gwaharddiadau ar blastig untro.

3. Camau Senedd Cymru

Trafododd Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd nifer o ddeisebau â'r nod o leihau gwastraff plastig, gan gynnwys:

- [P-05-874 Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru](#)
- [P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy;](#)
- [P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru;](#)
- [P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig; a](#)
- [P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!](#)

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd ei [adroddiad](#) yn dilyn ei [ymchwiliad i leihau gwastraff plastig](#). Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad a ganlyn:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i leihau gwastraff a llygredd plastig, yn seiliedig ar y model ar gyfer lleihau allyriadau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, [gan nodi](#) ei bod:

... wedi ymrwymo i roi amrywiaeth o fesurau deddfwriaethol ar waith er mwyn helpu i leihau, gwahardd neu gyfyngu ar werthiant nifer o eitemau plastig untro a gaiff eu taflu'n gyffredin i'r sbwriel, yn cynnwys ffyn cotwm, cwpanau ar gyfer diodydd a gwellt plastig.

Ar [9 Rhagfyr 2021](#), fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith [ysgrifennu](#) at y Gweinidog yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran bwrw ymlaen â chynigion i wahardd eitemau plastig untro.

Sbwriel a gwastraff plastig oedd un o'r tri phrif fater y bu Senedd Ieuenctid blaenorol Cymru yn canolbwyntio arnynt. Cyhoeddodd ei hadroddiad ym mis Tachwedd 2020 a gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys bod Llywodraeth Cymru "yn cymryd camau sylweddol ar frys i roi diwedd ar gynhyrchu plastigau untro".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/12208/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd ynghylch deiseb Nafisa Derradij i wahardd polystyren a mathau eraill o blastig untro.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein huchelgais o waredu'r defnydd o'r plastigau untro mwyaf cyffredin sy'n cael eu taflu fel sbwriel yng Nghymru a gwnaethom ymgynghori ynghylch ein cynigion y llynedd. Mae hyn yn cynnwys gwahardd y defnydd o gytleri a phlatiau untro plastig a chynwysyddion bwyd a diod polystyren neu gyfyngu ar y defnydd ohonynt <https://llyw.cymru/leihau-plastig-untro-yng-nghymru>.

Er bod cyflwyno Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ym mis Rhagfyr y llynedd wedi gwneud y sefyllfa yn fwy cymhleth rydym yn cymryd pob cam angenrheidiol i gyflwyno deddfwriaeth cyn gynted ag y gallwn o fewn y tymor hwn o'r Senedd, gan ddwyn ymlaen y gwaharddiad ar blastig untro.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 72
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONTFAEN RHAG EI DYMCHWEL

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sara Pedersen, ar ôl casglu 2,080 o lofnodion ar-lein a 3,442 ar bapur (dim yn derfynol), sef cyfanswm o 5,522 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i amddiffyn yr hen 'Ysgol Ganolradd i Ferched' y Bontfaen, Bro Morgannwg. Hon oedd yr ysgol ganolradd gyntaf i gael ei hadeiladu yn benodol ar gyfer addysgu merched yng Nghymru (a Lloegr), ac mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i'w ddymchwel. Byddai methu ei gwarchod yn arwain at golli adeilad hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol.

Wedi'i hagor ym 1896, ysgol ganolradd merched y Bontfaen oedd yr ysgol ganolradd gyntaf i ferched gael ei hadeiladu yng Nghymru (a Lloegr) o ganlyniad i Ddeddf Addysg Ganolradd Cymru 1889, a oedd ynddo'i hun yn foment bwysig yn Hanes Cymru. Ymysg ei gyfoeswyr, roedd ysgol y Bontfaen yn hynod anghyffredin o ran cynnwys llety i rai o'r disgyblion o'r cychwyn ac am gael ei ariannu i raddau helaeth gan ddyngarwr lleol.

Mae cymeriad gwreiddiol yr ysgol wedi goroesi i radd uchel iawn, yn allanol a thŷ mewn, gan gynnwys y neuadd a grisiau gwreiddiol. Dim ond 5 ysgol gymharol (o 95) sydd wedi'u rhestru ledled Cymru. Mae arolwg ohonynt i gyd yn cadarnhau fod ysgol y Bontfaen wedi goroesi i raddau cyfatebol i rai a gwell nag eraill.

Roedd y pensaer, Robert Williams, yn arloeswr ei gyfnod ac yn enwog am fod yn un radical. Roedd yn flaengar wrth annog cadwraeth adeiladau, yn arloeswr cenedlaethol o ran tai cymdeithasol, hybodd Ysgol Pensaernïaeth Cymru a hyrwyddodd cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg. Yn ddiweddarach yn ei yrfa aeth i weithio i deulu Davies Bryan yn Llundain ac yna'r Aifft, lle mae llawer o'i adeiladau yn dal i sefyll ac wedi'u gwarchod yn genedlaethol.

Mae cyn 'Ysgol Ganolradd i Ferched y Bontfaen' wedi goroesi fel tystiolaeth amlwg a deniadol o gyfnod pwysig yn hanes Cymru pan ddarparwyd cyfleoedd cyfartal i ferched difreintiedig yr oes. Rydym yn annog

Llywodraeth Cymru, fel ceidwaid ein treftadaeth, i amddiffyn yr adeilad hwn, unai drwy ei restru neu ddarparu cyllid tai cymdeithasol ychwanegol i alluogi ei drawsnewid.

Gwybodaeth ychwanegol:

Cyfeiriad: Scourfield (2019). FORMER COWBRIDGE COMPREHENSIVE SCHOOL, ABERTHIN ROAD, COWBRIDGE – AN HISTORICAL AND ARCHITECTURAL APPRAISAL.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Claire Woolley, ar ôl casglu cyfanswm o 393 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae angen gwarantu mynediad i fyfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref at ganolfannau arholiadau lleol addas, er mwyn iddynt gael yr un hawliau a mynediad at gymwysterau â phob plentyn arall yng Nghymru.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1160
Ein cyf/Our ref JMEWL/11851/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Rhagfyr ynghylch deiseb P-05-1160 (Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus).

Mae gwaith ar y cynigion ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, a gafodd ei atal dros dro yn 2020, wedi ailgychwyn ac mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol i helpu gyda'u paratodau a'r broses weithredu. Fel rhan o'r gwaith, bydd is-grŵp yn cyfarfod yn gynnar yn 2022 i nodi a datblygu arferion gorau o ran darparu cymorth a chefnogaeth addas, er budd teuluoedd sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Bydd yr is-grŵp hefyd yn ystyried mynediad at gymwysterau ac arholiadau fel rhan o'i cylch gwaith. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ganlyniad y gwaith hwn.

Fel y cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ym mis Mawrth, rydym yn disgwyl i arholiadau gael eu cynnal yn 2022. O gofio hynny, fel mewn blynyddoedd blaenorol, dylai ymgeiswyr preifat ddechrau meddwl am gysylltu â chanolfannau i weithio â nhw. Rydym yn cynghori bod ymgeiswyr yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl, gan mai'r dyddiad cau i ganolfannau gyflwyno ymgeiswyr i CBAC yw **dydd Llun, 21 Chwefror 2022**.

Anogir canolfannau i ganiatáu i ymgeiswyr preifat gofrestru â nhw yn y ffordd arferol. Os na all ymgeiswyr ddod o hyd i ganolfan, dylent siarad â Swyddog Addysg yn y Cartref eu Hawdurdod Lleol am gyngor. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol, dylai'r dysgwr sôn am hyn wrth y Ganolfan/Swyddog Addysg yn y Cartref.

Os byd y sefyllfa iechyd gyhoeddus yn ei gwneud yn amhosibl i gynnal y gyfres arholiadau sydd wedi'i hamserlennu yn 2022, mae trefniadau wrth gefn wedi eu paratoi a bydd yn cael

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 76
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eu rhoi ar waith. Gellir gweld y cynlluniau wrth gefn cyffredinol ar [wefan Cymwysterau Cymru](#).


Pan fo ymgeiswyr preifat yn dymuno cofrestru am gymwysterau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru, byddai angen i'r corff dyfarnu/rheoleiddiwr priodol gadarnhau eu trefniadau. Mae'r Adran Addysg yn Lloegr wedi cytuno ar y dull gweithredu sydd i'w gymryd yn yr achos hwn ar gyfer ymgeiswyr preifat (ee. y rhai sy'n ceisio cael cymhwyster AQA, OCR, Eduqas neu gymwysterau Pearson) ac maent wedi cyhoeddi [llythyr i ymgeiswyr preifat](#) yn amlinellu eu cynlluniau.

Mewn perthynas â ffioedd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr preifat yn talu'r ffi mynediad a thâl ychwanegol i'r ganolfan weinyddu'r cais i gofrestru. Os bydd angen y trefniadau wrth gefn, bydd y trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau nad yw dull amgen ar gyfer asesu yn creu rhwystrau ychwanegol i ymgeiswyr preifat.

O gofio ein bwriad i feithrin partneriaethau mwy cadarnhaol ac effeithiol gyda theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref, rydym yn darparu £1.7m i awdurdodau lleol yng Nghymru i gefnogi addysg ddewisol yn y cartref. Mater i awdurdodau lleol unigol yw sut i ddefnyddio'r cyllid, gan sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio i gael yr effaith fwyaf ac yn unol â'i gyfrifoldebau statudol. Mewn rhai achosion, mae rhieni/gofalwyr wedi defnyddio'r cyllid hwn i helpu gyda chostau cymwysterau ac arholiadau.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Eitem 3.3

P-06-1197 Gwasanaeth sgrinio'r galon am ddim i bob plentyn rhwng 11 a 35 oed sy'n cynrychioli ei ysgol neu sir mewn chwaraeon

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sharon Owen, ar ôl casglu cyfanswm o 3,092 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae 12 o bobl o dan 35 oed yn marw'n sydyn bob wythnos yn y DU o gyflwr ar y galon a fyddai'n dod i'r amlwg wrth sgrinio'r galon. Nid yw 80 y cant o'r marwolaethau hyn yn dangos unrhyw symptomau blaenorol.

Mae cyfradd oroesi o 7 y cant ar gyfer ataliad y galon. Ers gwneud sgrinio'r galon yn orfodol yn yr Eidal i bob chwaraewr mewn timau chwaraeon, mae marwolaeth sydyn y galon wedi gostwng 89 y cant.

Bu farw Owen Morris, 13, yn sydyn yn ystod hyfforddiant rygbi yng Nghaerdydd o gyflwr ar ei galon heb ei ddiagnosisio, a allai fod wedi dod i'r amlwg wrth sgrinio.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Wrth sgrinio calonnau, mae un o bob 300 sesiwn yn dod o hyd i broblem a allai fygwth bywyd yr unigolyn, ac y gellir ei reoli neu ei drin wedyn.

Stori Owen Morris: <https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/friends-family-welsh-schoolboy-who-7361218>

Cafodd Chris Morse, 33, ei anfon i'r ysbyty ar unwaith ar ôl bod mewn gwasanaeth sgrinio'r galon: "Bydd yn cymryd ychydig funudau ac yn ddi-os gallai arbed eich bywyd, fel yn fy achos i." Dyma stori Chris:

<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50635370>

Bu farw Ben McDonald, 25, ar ôl cael ataliad y galon yn Hanner Marathon Caerdydd. Mae mam Ben, Ruth McDonald, eisiau i bobl yng Nghymru gael mynediad at wasanaeth sgrinio'r galon am ddim i helpu i atal achosion o farwolaeth sydyn y galon.

Yma yn Calon Heart Screening Wales mae'n rhaid i ni godi ffi am wasanaeth sgrinio'r galon. Fodd bynnag, rydym am gael cyllid gan y llywodraeth i allu cynnig gwasanaeth sgrinio'r galon am ddim i'r rheini rhwng 11 a 35 oed sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ar gyfer eu hysgol, eu sir neu eu gwlad. Cewch ragor o wybodaeth am ein helusen yma: www.heartscreening.wales.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1197
Ein cyf/Our ref EM/14177/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

20 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ynglŷn â Deiseb P-06-1197 ynghylch cyflwyno rhaglen sgrinio'r galon i bob person 11 i 35 oed yng Nghymru sy'n cynrychioli ei ysgol neu ei sir mewn chwaraeon. Darllenais sylwadau pellach y deisebydd ar y mater hwn.

Fel yr esboniais yn fy ymateb blaenorol, caiff rhaglenni sgrinio'r boblogaeth eu hargymell gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar sail tystiolaeth y gallant achub bywydau drwy adnabod risg yn gynnar. Fodd bynnag, caiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y posibilrwydd y gallant achosi niwed drwy adnabod ffactorau risg na fuasent byth fel arall yn datblygu yn gyflwr neu'n gymhlethdod difrifol. Byddai hyn yn arwain at bryderon iechyd diangen, neu'n arwain at unigolion yn cael eu heithrio rhag ymarfer corff. Gall rhaglenni sgrinio greu canlyniadau negyddol ffug, felly nid ydynt yn sicrhau amddiffyniad.

Nid yw cael canlyniad risg isel yn atal person rhag datblygu'r cyflwr yn ddiweddarach. Dylid ond cynnig rhaglenni sgrinio'r boblogaeth pan fo tystiolaeth gadarn, ac o safon uchel sy'n cadarnhau y byddai'r profion sgrinio yn sicrhau mwy o ddaioni na drwg.

Mae profion sgrinio i atal Marwolaeth Sydyn y Galon ymhlith unigolion 12 i 39 oed wedi'u hystyried gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, ac oherwydd y rhesymau uchod nid ydynt yn cael eu hargymell, ac o ganlyniad, nid yw profion sgrinio'r galon yn cael eu darparu yn y DU.

Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw pob sefydliad yn cefnogi profion sgrinio'r galon i bawb oherwydd gall canlyniadau sgrinio camarweiniol achosi goblygiadau a allai fod yn niweidiol i athletwyr ifanc a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi gormod o driniaeth a chamddiagnosis a all effeithio athletwyr drwy gydol eu bywydau.

Er nad yw profion sgrinio'r boblogaeth gyfan yn cael eu hystyried yn fuddiol, dylid cynnig asesiadau clinigol unigol i deuluoedd unigolion sydd wedi dioddef Marwolaeth Sydyn y Galon, er mwyn asesu eu risg. Mae hyn yn fodd o raeadru'r broses o ganfod achosion

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 80
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mewn poblogaeth sy'n wynebu risg uwch yn hytrach na sgrinio'r boblogaeth gyfan sy'n asymptomatig. Yn ogystal, dylai pobl ifanc sydd â symptomau neu bryderon, yn enwedig os ydynt yn gorfforol egnïol iawn, siarad â'u meddyg teulu a fydd yn gallu eu cynghori yn briodol.

Cynigir opsiwn gan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer cyllido astudiaethau carfan hydredol – lle bydd rhaid i'r academyddion sy'n gwneud cais gyflwyno'r achos. Byddai angen cysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor Ymchwil Feddygol i gael rhagor o wybodaeth: <https://mrc.ukri.org/about/our-structure/strategy-board-overview-groups/population-health-sciences-group/longitudinal-population-studies-strategic-advisory-panel/>

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



**CALON HEART SCREENING AND
DEFIBRILLATORS WALES**

Sgrinio'r Galon a Diffibrilwyr

THE HEART CHARITY FOR WALES

ELUSEN Y GALON DROS GYRMU

Charity No 1193404

**White House Cottage
The Cathedral Green
Llandaff
Cardiff, CF5 2EB**

Tel 0292 2402 670

Mob [REDACTED]

www.heartscreening.wales

12th January 2022

Deputy Clerk
Petitions Committee
Welsh Parliament

Dear Deputy Clerk

P-06-1197 – Heart Screening Programme / Calon Hearts

Thank you for your email of 7th January, enclosing the letter from Eluned Morgan AS/MS, Minister for Health and Social Services, in response to our letter stating our case in support of the introduction of a heart-screening programme for all 11 to 35 yr olds in Wales who represent their school or county in sport.

In the Minister's letter, she reiterated what she said in her previous response and did not respond to the points we subsequently made.

Referring to those points, we dispute the Minister's conclusion to our petition by saying that "heart-screening should not be introduced as misleading screening results can have potentially damaging consequences for healthy athletes and their families as over-treatment and misdiagnosis which can follow athletes throughout their lives".

We would challenge this statement and other points made, on the following grounds:

- We reiterate: of 269 sudden deaths in young people, 49 occurred in competitive athletes with **undiagnosed heart conditions**.
- It is important to note that heart-screening has been compulsory in all teenagers and adults competing in athletic sports in Italy since 1982. Many other European countries offer similar cardiac screening, including France, Greece, Spain, Luxembourg, Sweden, Germany and Poland. Wales and the UK lacks sadly behind here. It would be good to see Wales taking the UK lead in this.
- Based on our current ECG heart-screening sessions, we found that 1 in 4 screenings revealed the need for further investigation with an Echo Cardiogram. Even accepting a percentage of false positives, we consider these odds are too high to ignore. Identifying the need for further investigation leads to long-term reassurance on minor issues which beats any short-term stress. More importantly, where it does reveal more worrying conditions, consider the alternative had it

not been picked up. To say that the small things might “haunt” an athlete through their lives is no consideration; it is clearly better to know.

- We are not saying that heart-screening should be compulsory for all, we are asking for it to be an option for young people who play sport.
- We would further challenge the Minister’s reasons for the dismissal of heart-screening to avoid anxiety, which would be similar as saying that, for instance, breast or bowel-screening would cause anxiety.
- All screening is subject to misdiagnosis and error, including breast screening, bowel screening, etc, including covid testing. This is no reason for not implementing.
- It is unlikely that a young sports-playing person, without any symptoms, would visit a GP and ask for heart-screening. In any case, it is not currently possible to have heart-screening from a GP on request, unless an individual has symptoms. However, it is likely that, were screening offered in a school, sports club or community centre, a young person would choose to be screened as a simple routine procedure.

In conclusion, whatever the source of advice, the Welsh Government has the responsibility for decisions on services and we urge the Minister and other members to take on board our concerns and reconsider an unwillingness either to challenge UK Screenings with those concerns and get a satisfactory answer, or to take them into consideration and weigh them against UK Screening advice. Please also note, the UK Screening advice is different in the case of young adults from that given for the whole population.

It would be good to see Wales taking the lead in the UK on this issue.

May we take this opportunity of thanking the Minister and other Members for their time in considering this matter. We look forward to and hope for a positive outcome.

Yours sincerely

Sharon Owen

Sharon Owen
Charity Director

Eitem 3.4

P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Madison Lorraine, ar ôl casglu cyfanswm o 108 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Dylai'r Senedd, a chyrrff eraill, ddechrau defnyddio ymadroddion Cymraeg os ydynt am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus, rhaid iddynt osod esiampl i eraill. Yn hytrach na chyfeirio at Gaerdydd yn ôl ei henw Saesneg, 'Cardiff', defnyddiwch ei henw Cymraeg yn lle hynny. Wedi'r cyfan, nid yw siarad Cymraeg yng Nghymru yn drosedd mwyach – ydyw?

"Gair i gall" mae'n bryd arwain drwy esiampl.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru



Drwy e-bost at:
deisebau@senedd.cymru

07/12/2021

Annwyl Gadeirydd

Deiseb P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg

Diolch yn fawr iawn ichi am gysylltu i holi fy marn am y ddeiseb hon ac am y gwaith mae fy swyddfa i'n ei gyflawni yn y maes hwn. Rhaid canmol cywirdeb a thrylwyrdd y briff ymchwil (Cyfeirnod: SR21/1044-8) oedd yn cefnogi'r aelodau wrth iddynt drafod y ddeiseb. Mae'n adlewyrchiad teg o'r sefyllfa bresennol ac yn cyfleu cymhlethdod a chyfoeth enwau Cymru.

Mae'r briff hefyd yn pwysleisio bod y Senedd wedi gorfod ystyried sawl deiseb yn ymwneud ag enwau lleoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf: arwydd sicr o ddiddordeb y cyhoedd yn y maes. Mae hefyd yn awgrymu bod rhagor o waith eto i'w gyflawni yn y maes hwn, er gwaethaf gwaith dygn ac ymdrechion sylweddol fy swyddfa i a phartneriaid eraill dros y blynyddoedd diwethaf. Hyn sydd wedi arwain at ymrwymiad y Llywodraeth yn ei rhaglen lywodraethu i 'weithio i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg'.

Yn ei lythyr dyddiedig 11 Hydref mae'r Gweinidog yn nodi arfer y Llywodraeth o rannu'r maes amlhaenog hwn yn dair rhan er mwyn hwyluso trafodaeth, sef 1) Enwau dinasoedd, trefi a phentrefi; 2) Enwau hanesyddol a daearyddol; a 3) Enwau tai. Mae gwaith fy swyddfa i yn y maes hwn yn ymwneud yn bennaf â'r categori cyntaf, sef enwau aneddiadau Cymru. Canolbwyntiaf ar y maes hwnnw felly er y bydd gennyf rai sylwadau i'w gwneud am y meysydd eraill hefyd.

Enwau dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru

Fe wyddoch, wrth gwrs, am arbenigedd Comisiynydd y Gymraeg ym maes enwau lleoedd Cymru ac am ein cyfrifoldeb i argymhell ffurfiau safonol enwau aneddiadau i sefydliadau ac unigolion. Mae gennym ni banel o arbenigwyr ar enwau lleoedd ac orgraff y Gymraeg i'n cynorthwyo ac mae argymhellion y panel ynghylch sut i sillafu enwau lleoedd yn cael eu cyhoeddi yn [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#). Mae'r panel yn defnyddio [Canllawiau Safoni Enwau Cymru](#) i lywio ei benderfyniadau ac mae hefyd yn ystyried ystyr,

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

hanes a tharddiad yr enwau lleoedd ynghyd â'r defnydd cyfredol ohonynt wrth lunio'i argymhellion.

Rhaid pwysleisio nad yw'r gwaith hwn i safoni enwau lleoedd yn waith *newydd*. Mae'r gwaith o safoni enwau lleoedd yn digwydd ers degawdau yng Nghymru. Crëwyd mecanwaith ffurfiol i gynghori cyrff cyhoeddus yn y Swyddfa Gymreig ddechrau'r 1970au, ac yn sgil datganoli trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i'r Cynulliad am gyfnod byr cyn gwahodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ymgymryd â'r gwasanaeth ymgynghorol yn 2001. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i Gomisiynydd y Gymraeg adeg sefydlu'r swydd yn 2012.

Nid bathu neu greu ffurfiau *newydd* yw gwaith y panel chwaith, ond yn hytrach *argymell* ffurf safonol o blith nifer o ffurfiau. Weithiau ceir dwy (neu fwy) ffurf ar enw ac ystyrir un yn enw 'Cymraeg' a'r llall yn enw 'Saesneg' er mai enw sy'n tarddu o'r iaith Gymraeg sydd dan sylw (e.e. Taf/Taff). Mewn achosion o'r fath mae'r panel yn aml yn argymell y dylid anelu at arfer un ffurf yn unig, gan dueddu at y ffurf Gymraeg safonol. Mae'r Gweinidog yn ei lythyr atoch yn cymeradwyo'r ymagwedd hon ac yn dweud ei fod yn 'gwneud synnwyr i lynu wrth y sillafiad Cymraeg'. Byddai hyn yn ffordd amlwg o hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â dymuniad y deisebydd, a chael gwared ar ffurfiau deuol diangen.

Nid oes awdurdod enwi yng Nghymru. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu sut maen nhw'n sillafu enwau ar arwyddion ffyrdd ac yn eu cyhoeddiadau. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am lwytho data cyfeiriadau i restrau cenedlaethol sydd yn sail i gynnyrch mapio a data cyfeiriadau asiantaethau eraill. Yn aml iawn, awdurdodau lleol hefyd sydd â'r wybodaeth fwyaf cyfredol am ddefnydd enwau a barn trigolion. Rydym felly'n ymgynghori ac yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod barn a gwybodaeth leol yn cael eu hystyried yn y broses safoni.

Cyfeiriodd Joel James AS yn ystod trafodaeth y pwyllgor at ei brofiad personol ef yn achos un enw yn Rhondda Cynon Taf lle roedd anghytundeb lleol ynghylch a ddylid sillafu Efailisaf yn un gair neu'n ddau air, Efail Isaf. Mae'n enghraifft wych o sut y gall enw lle a'i sillafiad ennyn ymateb emosiynol iawn ac mae perygl i ddadleuon am sut y dylid sillafu enwau greu rhaniadau diangen mewn cymunedau. Dyna pam fod safoni yn gymwynas: mae cael corff arbenigol, allanol i dorri dadl a chynnis arweiniad yn wasanaeth gwerthfawr i sefydliadau.

Yn anffodus, nid oes grym statudol i argymhellion y Comisiynydd. Nid oes deddf i warchod enwau dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru nac i gymell sefydliadau cyhoeddus i ddilyn cyngor y Panel Safoni Enwau Lleoedd. Mae hyn yn wahanol i'r arfer yn Iwerddon, er enghraifft, lle mae gwarchodaeth i enwau swyddogol mewn statud. Yn ein barn ni byddai sefydlu trefn lle mae disgwyliad i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru arddel ffurfiau safonol a argymhellir gan y Comisiynydd yn gweddnewid y sefyllfa bresennol. Byddai'n arwain at sefyllfa lle byddai ffurfiau Cymraeg safonol yn cael eu harddel a'u hyrwyddo a byddai'n lleihau dryswch, dyblygu ac anghysondeb mewn data mapio a chyfeiriadau. Byddai hefyd yn arbed amser ac adnoddau awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd yn gorfod ymdrin â sefyllfa o ansicrwydd ac anghytundeb ynghylch pa ffurfiau y dylent eu harddel.

Enwau hanesyddol, daearyddol ac enwi strydoedd a thai

Hyd yma, mae gwaith y Comisiynydd yn y maes hwn wedi canolbwyntio, am resymau capasiti yn bennaf, ar enwau aneddiadau. Fodd bynnag, rydym yn gweld potensial i gymhwyso ein harbenigedd i feysydd cysylltiedig ac rydym wedi cytuno'n ddiweddar i gydweithio â Pharc Cenedlaethol Eryri ar brosiect peilot i safoni enwau tirweddol (afonydd, llynnoedd, mynyddoedd) y Parc a llunio canllawiau safoni i'w cefnogi.

Ers sefydlu'r Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol bron i bum mlynedd yn ôl mae fy swyddogion wedi bod yn cydweithio â swyddogion Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i hyrwyddo'r rhestr honno a'n rhestr ninnau o ffurfiau safonol i swyddogion awdurdodau lleol i'w cefnogi yn y gwaith o enwi strydoedd a datblygiadau newydd. Gall y Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol fod yn ffynhonnell werthfawr o enwau hanesyddol i'w hatgyfodi i enwi datblygiadau newydd ac mae'r Comisiynydd yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol i swyddogion awdurdodau lleol fyddai'n dymuno arweiniad ynghylch sut i sillafu'r enwau hyn mewn Cymraeg modern.

Yn ddiweddar hefyd mae un o'm swyddogion wedi derbyn gwahoddiad i fod yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fydd yn adolygu'r drefn bresennol ac asesu llwyddiant y Rhestr i gyflawni dyletswydd statudol Llywodraeth Cymru i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol Cymru. Bwriad y Grŵp yw llunio adroddiad erbyn diwedd Mawrth 2022 yn gwneud argymhellion am sut y dylid datblygu'r gwaith yn y dyfodol.

Addysgu ac adnoddau

Mae'r deisebydd, yn ei lythyr dyddiedig 2 Tachwedd 2021, yn cyffwrdd ar botensial y cwricwlwm i feithrin balchder disgyblion yn ein hetifeddiaeth ieithyddol, hanesyddol a llenyddol gyfoethog. Does dim amheuaeth bod enwau lleoedd Cymru yn darparu allwedd i ddeall peth o'r etifeddiaeth hon. I'r perwyl hwn mae angen cefnogi astudiaethau academaidd yn y maes a meithrin arbenigwyr a fydd yn gallu egluro a dehongli'r enwau hyn mewn ffyrdd difyr a gafaelgar i genedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd angen mynediad hwylus ar y cyhoedd at wybodaeth am enwau lleoedd, eu hynganiad, eu tarddiad a'u hystyr.

Mae gwerth tynnu sylw hefyd yn y fan hon at y ddarpariaeth ardderchog sydd ganddynt yn Iwerddon er mwyn hyrwyddo'r defnydd o enwau Gwyddeleg: Logainm.ie. Byddai cronfa o'r math hwn yn fodd o roi llwyfan briodol i enwau Cymru gan addysgu pobl am eu hystyr a'u pwysigrwydd, yn ogystal â darparu arweiniad ymarferol i ddefnyddwyr ynghylch sut mae ynganu'r enwau hyn yn Gymraeg.

Mae'r ddeiseb dan sylw yn amlygu dyhead i hyrwyddo ffurfiau Gymraeg. Dylid pwysleisio nad yw'r Comisiynydd o'r farn y dylid dileu neu ddisodli enwau sy'n tarddu o ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg. Yn wir, mae'r Comisiynydd yn cynnig cyngor i sefydliadau ynghylch ffurfiau safonol yr enwau hyn hefyd. Mae'n deg nodi, fodd bynnag, fod enwau Cymraeg yn aml yn llai amlwg neu adnabyddus na ffurfiau neu enwau a ddefnyddir yn Saesneg. Byddai modd i'r Senedd a'r Llywodraeth gymryd camau i hyrwyddo ffurfiau Cymraeg safonol enwau lleoedd Cymru heb fod hynny ar draul neu'n fygythiad i'r enwau hynny sy'n tarddu o ieithoedd eraill. Mae dulliau ymarferol o wneud hyn, fel nodi ffurf Gymraeg ochr yn ochr â'r enw Saesneg mewn cyhoeddiadau Saesneg, er enghraifft.



Fel y nodwyd ar y dechrau mae enwau lleoedd Cymru yn faes cymhleth, cyfoethog ac amlhaenog. Mae'n amhosibl gwneud cyfiawnder â phob agwedd ar y drafodaeth mewn llythyr o'r math hwn. Buaswn felly'n fwy na hapus i ymateb i gwestiynau pellach ar bynciau penodol neu i ddod i drafod â'r pwyllgor pe bai hynny o gymorth.

Pob hwyl â'r gwaith o ystyried y ddeiseb.

Yn gywir iawn,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

P-06-1217 Agor canolfannau/clinigau meddygol un stop Covid Hir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lawson Webb, ar ôl casglu cyfanswm o 1,214 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae 1,000 o bobl yn dioddef o Covid hir nad ydynt yn cael unrhyw gymorth meddygol. Rydym yn teimlo ein bod yn cael ein hanwybyddu ac yn ddiymadferth. Mae ein bywydau wedi'u dinistrio.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1217
Ein cyf/Our ref EM/14657/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau

6 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr pellach dyddiedig 8 Rhagfyr ynghylch deiseb rhif P-06-1217 ynghylch agor canolfannau meddygol pwrpasol a chlinigau i bobl â COVID hir.

Yn unol â chanllawiau NICE, mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi datblygu gwasanaethau adsefydlu aml-ddisgyblaeth, integredig i bobl â COVID hir. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu asesiad integredig o symptomau ac anawsterau corfforol ac iechyd meddwl a rhaglen driniaeth neu gyngor yn ôl yr angen. Mae llwybrau atgyfeirio lleol, integredig rhwng gofal sylfaenol a chymunedol ac ymchwiliadau diagnostig, gwasanaethau adsefydlu, gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar waith ledled Cymru i bobl y mae arnynt eu hangen. Mae'r gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn cael eu harwain gan ymarferwyr meddygol cyffredinol ac mae gwasanaethau gofal eilaidd yn cael eu harwain gan feddyg neu feddyg ymgynghorol gyda'r sgiliau perthnasol.

Mae canllawiau NICE hefyd yn argymhell rhannu gwybodaeth, sgiliau a hyfforddiant rhwng gwasanaethau i helpu ymarferwyr yn y gymuned i ddarparu asesiadau ac ymyriadau. Mae gan y GIG yng Nghymru grŵp Cymuned Ymarfer COVID hir, sy'n cynnwys arweinwyr o bob bwrdd iechyd sy'n cydweithio i safoni gofal a rhannu gwybodaeth a dysgu. Yn ogystal, mae'r Sefydliad Gwyddoniaeth Glinigol a Thechnoleg (ICST) wedi datblygu a chyflwyno canllaw digidol COVID hir i ddarparu addysg, hyfforddiant ac i grynhoi ymchwil newydd i helpu gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru i gynyddu eu harbenigedd a'u sgiliau wrth drin COVID hir.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 90
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y crybwyllais yn fy llythyr blaenorol a anfonwyd atoch ym mis Hydref, dros yr haf cyhoeddais becyn o £5m i gefnogi'r Rhaglen Adferiad, sy'n cefnogi'r rhai sy'n dioddef effeithiau parhaus yn sgil haint COVID-19. Gofynnwyd i'm swyddogion adolygu'r rhaglen hon bob chwe mis ac rydym yn disgwyl cael adroddiadau oddi wrth fyrddau iechyd ar eu gwasanaethau COVID hir ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Rydym hefyd wedi gofyn i fyrddau iechyd ddarparu eu hargymhellion ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol, ac mae'n dal yn allweddol bod ein gwasanaethau'n gallu newid ac addasu yn seiliedig ar ddysgu o brofiad a'r ymchwil a gwerthuso diweddaraf.

Mae rôl ymchwil yn hollbwysig wrth lywio triniaethau a therapïau, yn ogystal â gwella gwasanaethau i'r rhai sy'n dioddef o COVID hir. Trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag arianwyr ymchwil y DU, sef y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), sydd wedi ariannu 19 o astudiaethau yn 2020 a 2021 ar COVID hir gan gynnwys astudiaethau imiwnolegol, gwerthuso therapïau ac offer hunan-gymorth. Ym mis Tachwedd, cyfarfu holl ymchwilwyr y 19 o astudiaethau i rannu gwybodaeth am yr ymchwil sy'n mynd rhagddi, ac roedd NIHR a'r gwledydd datganoledig yn bresennol. Caiff yr allbynnau eu rhannu â chydweithwyr polisi ac ymarfer yn ystod 2022-23.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**P-06-1217 Open Long Covid one stop medical hubs / clinics, Correspondence –
Petitioner to Committee, 17.01.22**

In accordance with NICE guidelines, every health board in Wales has developed integrated, multidisciplinary rehabilitation services for people with Long COVID. These services provide an integrated assessment of both physical and mental health symptoms and difficulties and a treatment programme or advice as required. Local, integrated referral pathways between primary and community care and diagnostic investigations, rehabilitation services, specialist services and specialist mental health services are in place across Wales for people who require them. The integrated primary and community care services are led by general medical practitioners and secondary care services are led by a doctor or consultant with the relevant skills.

This is contrary to the experience of LongCovid patients across Wales. Many LongCovid patients in Wales have experienced being passed from pillar to post, between numerous disparate Consultants, if lucky to be referred from primary care, which is inefficient, causes delays and unnecessary distress and confusion, especially for patients who frequently suffer from brain fog, fatigue and exhaustion. A precious few have experienced the benefits of being seen by a single medical Consultant with extensive clinical experience and practice of dealing with LongCovid, through whom their diagnoses of serious complications have been made rapidly and their secondary care has been expedited by Consultant-to-Consultant referrals in a most efficient manner. In addition, this provision of satisfactory care has resulted in a significant improvement in their mental health such that support for that in the primary sector has been unnecessary, resulting in significant savings to the NHS in time and resources. In accordance with NICE guidelines there should be

medical Consultant-led services, i.e. LongCovid clinics, in Wales, as provided in England, but there are not. Welsh Government policy is that such clinics are NOT to be supported and no reasonable explanation has been forthcoming. In addition, the GPs on which this has been foisted are insufficiently skilled and experienced to deal with the frequently complex, complicated, multisystem and serious complications of LongCovid, such as cardiovascular, respiratory and thromboembolic disease, as BMA Wales has pointed out to Welsh Government. This is not compatible with the basics of quality, is not patient centred and patient safety is at risk.

NICE guidelines also recommend the sharing of knowledge, skills and training between services to help practitioners in the community provide assessments and interventions. The NHS in Wales has a Long COVID Community of Practice group, which includes leads from every health board working together to standardise care and share knowledge and learning. In addition, the Institute of Clinical Science and Technology (ICST) have developed and rolled out a Long COVID digital guideline to provide education, training and summarise new research to help health professionals in Wales increase their expertise and skill in treating Long COVID.

As mentioned in my previous letter sent to you in October, over the summer I announced a £5m package to support the Adferiad (Recovery) Programme, which supports those experiencing ongoing effects from a COVID-19 infection.

The £5m is not dedicated to Long Covid, it is also intended to support individuals who have specific needs as a result of the impacts of the pandemic. Even if this amount was solely used for those affected by Long Covid it would provide approximately £86 per sufferer when divided by the 58,000 in Wales affected which is the ONS's latest estimate. Around 20% of

those seen in the only medical Consultant-led clinic that operates, under duress, in C&VUHB, require extensive and complex diagnostic procedures costing hundreds/thousands of £, so this amount does not match the need. For example, one patient has required three brain scans, full lung function and cardiovascular tests, numerous clinic appointments, plus various prescriptions for medicines over more than a year, which comes to more than £3,000 and counting.

My officials were asked to review this programme on a six monthly basis and we are expecting to receive reports from health boards on their long COVID services early in the new year. *Are they, or anyone in Government, receiving any feedback from the patients themselves, let alone e.g. PROMS from the Health Boards (which cannot be relied upon alone unless verified by the National Audit Office), regarding these services, so feedback on output not input? It is the almost universal experience of those who have availed themselves of these services that they are woefully inadequate. Many have had to source services outside of Wales and/or in the private sector, or participate in research studies in England that provide clinical reports, e.g. COVERSCAN in Oxford (see below).*

We have also asked health boards to provide their recommendations for future service delivery, as it remains key that our services can change and adapt based on learning from experience and the latest research and evaluation. *Will these recommendations be made available by the Health Boards to their patients? Patient involvement is crucial in the development of services.*

The role of research is critical in shaping new treatments and therapies, as well as improving services for those suffering from Long COVID. Through Health and Care Research Wales, Welsh Government is working closely with UK research funders, namely the National

Institute of Health Research (NIHR) and UK Research and Innovation (UKRI), who have during 2020 and 2021 funded 19 studies on Long COVID including immunological studies, evaluations of therapies and self-help tools. In November 2021, all researchers of the 19 studies met to share information of the research underway, and NIHR and devolved nations were present. The outputs will be shared with UK policy and practice colleagues over 2022/23. *Research is absolutely critical, but this fails to address the fact that such studies are not being made available to patients in Wales, precisely because Wales doesn't have the centralised Long Covid consultant led clinics to manage these, so patients in Wales are unable to contribute to studies designed (and in part funded by Wales) to help their own diagnosis and recovery.*

Eitem 3.6

P-06-1208 Deddfau newydd i amddiffyn gwiwerod coch prin rhag colli cynefinoedd sy'n achosi dirywiad yn eu poblogaeth

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Craig Shuttleworth, ar ôl casglu cyfanswm o 10,555 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae'n anghyfreithlon lladd neu anafu gwiwer goch. Eto i gyd, nid yw coedwig sy'n eu cynnwys yn cael ei gwarchod a gellir ei thorri i lawr.

Er bod angen trwydded torri coed er mwyn cwmpo coetir, ni ellir gwrthod y trwyddedau hyn hyd yn oed os ydyn nhw'n arwain at golli cynefin a dirywiad ym mhoblogaeth y wiwerod coch.

Nid oes angen trwydded ar goedwigoedd sy'n eiddo i'r wladwriaeth, ond fe'u rheolir o dan gynlluniau sy'n para 10 mlynedd neu fwy. Nid oes yn rhaid iddyn nhw asesu effaith gronol cwmpo coed ar boblogaethau gwiwerod coch o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'n rhaid i hyn newid.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae gwiwerod coch prin yn cael eu bygwth gan gyfraith cwmpo o'r 1960au, sydd wedi dyddio erbyn hyn.

<https://www.independent.co.uk/climate-change/news/red-squirrels-rare-woodland-wildlife-british-outdated-tree-felling-a8665491.html>

<https://nation.cymru/opinion/wales-should-follow-scotlands-lead-in-protecting-the-red-squirrels-habitat/>

Hyd yn oed mewn coedwigoedd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac wedi'u rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru, mae'r asiantaeth yn clirio cynefin trwy

gwympto coed heb asesu'r effaith ar boblogaethau gwiwerod. Ar Ynys Môn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwario £0 mewn 10 mlynedd ar fonitro gwiwerod coch. Does ganddyn nhw'r un syniad o effaith torri coed dro ar ôl tro ar boblogaethau, ac maen nhw'n parhau i gwympto cynefinoedd, ni waeth beth fo'r canlyniadau.

<https://www.thenational.wales/news/19304998.expert-raps-nrw-felling-red-squirrel-habitat/>

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae mynd i'r afael â datgoedwigo byd-eang yn hanfodol i atal ein bioamrywiaeth rhag dirywio, ond eto i gyd mae eu rheolydd coedwigoedd yn dinistrio cynefin coedwigoedd yma, heb asesu'r effaith ar wiwerod coch.

<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56185205>

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Arfon
- Gogledd Cymru

P-06-1208 New laws to protect rare red squirrels from habitat loss which causes population decline, Correspondence – Petitioner to Committee, 12.01.22

Dr Craig Shuttleworth

School of Natural Science
Bangor University

12/1/22

Dear Mr Sergeant

Re: Minister's Response Ref: JJ/11403/21 to Petition P-06-1208 'New laws to protect rare red squirrels from habitat loss which causes population decline'.

May I first take the opportunity to thank you and the members of the Petitions Committee for inviting me to provide a response to the Minister's letter of 1st October 2021 in regard to P-06-1208.

My petition can be partitioned into two elements relating to forest management:

- (1) Replacing 1967 Forestry Act so that tree felling licences can include enforceable 'wildlife conservation' conditions;
- (2) Evolving NRW management of state forests where tree felling licences are not required and instead 10 year plans are put in place.

I note that the Minister's letter pre-dates the Senedd Plenary debate of 8th December and the associated subsequent statements made by the Minister and the contributions of other AMs too.

Outdated tree felling laws

The Senedd plenary debate was a fabulous example of cross party support for a pressing wildlife conservation issue. The Minister was clear in her statement that the current legislative tools are not sufficient to deliver robust wildlife conservation in Wales and although the red squirrel was the petition poster-boy, a legislative change will benefit plants, fungi, invertebrates, birds and other rare mammals such as dormice and bats. Advisory species guidance notes and FSC Woodland Standards are not in themselves enough to protect habitat and it is great to see this weakness now being recognised. The Senedd have made addressing the biodiversity crisis a key commitment and the debate contributors all reflected this in their heart-felt statements.

I was contacted afterwards by many of the petition signatories who were overjoyed with the debate outcomes. Like myself, they are delighted that 1960s tree felling laws face being axed.

Since the debate, I have been invited by Welsh Government officials to take part in a subgroup to look in more detail at the way the future tree-felling legislative powers might be shaped and applied within the Agriculture (Wales) Bill and the texts in the forthcoming White paper - Scotland already has robust powers in place and their approach provides a valuable case-study.

I would like to thank the Welsh Government for this opportunity.

NRW management of state forests

I firmly believe that state forest management should be dynamic and that fixed ten year (+) plans are simply too inflexible to reflect the shifting patterns of wildlife population abundance and distribution. Local biological record centre data are insufficient as a way of assessing abundance as records will reflect geographical accessibility and also human recreational land use intensity – e.g. if few people visit an area then there will not be many wildlife sighting records submitted to the record centre relative to popular locations. The databases are therefore not a systematic survey and are not claimed to be. In 2018, whilst relying solely on local record centre data, NRW issued a licence for tree felling at Bodafon on Anglesey and stated that no red squirrels were present. The site was in fact the home of the highest density of red squirrels on the island and NRW had survey data internally but inter-departmental silo working meant that the forestry licence team were unaware:

<https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/tree-felling-programme-halted-amid-14953139>

I suspect that NRW like the idea of using record centres because it is seen as straightforward, a simplicity that buffers procedural working in the face of any staff turnover. However, it can be a weak approach especially in the context that NGO led 'Anglesey red squirrel conservation' has been underway for 25 years and the volunteer group leading activity on the ground has a wealth of local data and knowledge.

An additional point to stress is that NRW will liberally cherry pick elements of 10 year plans to do and which elements to ignore. Of course no stakeholder commenting on a plan at the earlier historical 'draft consultation' stage would be able to predict what would be done and what would not be. The lack of ongoing wildlife population census data doesn't help here because it means population status remains opaque in the face of what was done and what was not. This means the implications of NRW delivery and management choice once again can't be assessed.

The Minister wrote, *'it is important to appreciate that in sustainably managing a working forest to deliver multiple benefits within a wide variety of constraints, a holistic approach balancing competing demands must be taken.'* Although in general this is very true, in the context of red squirrels on Anglesey, NRW have ignored squirrel conservation and sadly refuse to accept any responsibility for their approach let alone to critically review and learn lessons.

If I might evidence:

The agency had spent £0 in a decade on monitoring Anglesey populations and thus did not have any idea of numbers or population distribution, nor of the impact of management on residual populations. In state forests, they have cleared extensive areas of trees to 'expose' geological features, cut wide rides between woodland blocks to fragment the habitat, over thinned forest canopy and failed to address a massive short-fall in the agreed scale of under planting of stands with tree species to provide future seed and food supplies for red squirrel. All of these 'interventions' were decisions conducted blind with respect to red squirrel conservation needs because the agency had no population monitoring assessments: in short it is impossible to integrate red squirrel with other multi-objectives if there are no survey data.

The NRW 'approach' has continued even after the Minister wrote on 1st Oct 2020 and mentioned a contract that has been issued to survey populations in 2022 within Anglesey state forests. The associated monitoring report is not due until spring 2022 and yet inexplicably whilst the ink was still wet on the contract, NRW started a 'consultation' on 'new forest plans' for Pentraeth forest with

comments to be in by early December 2021... Once again, management plans are being created in the absence of red squirrel population data and before commissioned monitoring has been completed. I am sure that committee members will agree that the NRW approach here can hardly be considered as 'holistic'.

Whilst North West NRW takes a *laissez faire* or 'devil may care attitude', in north east Wales, within Clocaenog forest, NRW are the epitome of integrated multi-objective forest management. Here, the agency fully supports volunteers, provides annual funds for red squirrel monitoring, equipment, land access and training opportunities. In 2020, I was contracted by NRW to review Clocaenog red squirrel conservation work at Clocaenog including a red squirrel release programme operating there. NRW brought in an independent facilitator to engage with local people and used feedback to revise working conservation protocols. Coincidentally at the same time, NRW in north west undertook 'public consultation' on Anglesey asking local people how happy open habitats made them feel and whether they wanted areas of Newborough forest clear-felled. No mention in the consultation was made about red squirrel being present in the forest.

The difference between north-east and north-west NRW approach to red squirrel is stark and quite inexplicable. The Minister's letter seeks that, '*good communication can continue so that mutual agreement on woodland management can take place.*' Nobody could disagree with that ethos, although I suspect the Minister is unaware that in 2020, NRW stated in response to direct questions from red squirrel conservationists that there was only a proposed thinning of a small area of Newborough planned for 2020 - it later became apparent that the agency had marketed and sold two large felling operations at Cefni and Pentreath along with the sale of the Newborough standing crop. This type of *fait accompli* is hardly 'mutual agreement'. It was followed by the NRW 'consultation' on further forest removal I mentioned above.

I would like to thank the Minister and Welsh Government for recognising the need to make legislative change and congratulate all those Senedd members who supported better protection of rare forest wildlife. I would also welcome if the petition committee were to consider writing to the Minister seeking ways in which NRW might recalibrate their approach to red squirrel conservation on Anglesey in the light of their exemplar in north east Wales at Clocaenog.

Kind regards

Dr Craig Shuttleworth

P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Daniel Worsley, ar ôl casglu cyfanswm o 85 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Diolch i'r Gweinidog Trafnidiaeth, mae gan Glan Conwy groesfan angenrheidiol i gerddwyr erbyn hyn ac mae gwelliannau diweddar i'r ffyrdd wedi cynyddu gwelededd. Fodd bynnag, mae llawer o drigolion yn poeni am gyflymder cerbydau a gofnodwyd dros gyfnod o bythefnos gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, sef 32.8 milltir yr awr ar gyfartaledd. Mae'r groesfan yn cael ei defnyddio gan blant ysgol ac oedolion i gyrraedd safle bus a chyfleusterau chwaraeon lleol yn ogystal â bod yn rhan o lwybr seiclo. Mae llawer o adroddiadau wedi bod yn y cyfryngau am ddamweiniau a fu bron â digwydd a cherbydau yn peidio â stopio.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Un pryder penodol yw y gallai plant gredu eu bod yn ddiogel a chamu neu redeg allan i'r groesfan heb edrych. Bydd y tymor prysur yn yr haf pan fydd y twristiaid yn cyrraedd yn cynyddu'r perygl gan y bydd ymwelwyr yn anghyfarwydd â'r ffordd, yn ogystal â pheidio â thalu sylw o bosibl gan eu bod yn edmygu'r golygfeydd lleol.

I gloi, hoffai'r deisebwyr ddadlau bod 30 milltir yr awr yn rhy gyflym ar gyfer cyflwr y ffordd ar hyn o bryd ac maent yn gofyn i'r Gweinidog ystyried gostwng y terfyn cyflymder i 20 milltir yr awr yn agos at y groesfan.

Mewn gwrthdrawiad ar 30 milltir yr awr â cherddwr, y siawns o farwolaeth yw 25%, a'r siawns ar 20 milltir yr awr yw 2.5%, sy'n golygu ei fod 10 gwaith yn fwy diogel!

Byddai gosod terfyn o 20 milltir yr awr am 200 fetr yn ychwanegu ychydig eiliadau yn unig at amser taith, a byddai'n golygu ei bod yn llawer mwy diogel ac yn helpu i gael gwared ar bryderon rhieni, sy'n bwysig iawn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberconwy
- Gogledd Cymru

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

 **01492 576065**

 cllr.charlie.mccoubrey@conwy.gov.uk

Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 06/01/2022

petitions@senedd.wales

Annwyl Mr Sargeant AS

Deiseb P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr 2021 ynglŷn â'r groesfan newydd i gerddwyr ar yr A470 yng Nglan Conwy. Mae'r A470 yn gefnfordd a Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Prifffyrdd ar ei chyfer. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gylch gwaith nac awdurdod i osod arwyddion araf na mesurau gostegu traffig eraill ar gefnfordd.

Yn ddiffuant



Y Cynghorydd Charlie McCoubrey
Arweinydd y Cyngor

P-06-1183 Implement a 20MPH speed limit 100 metres either side of the new pedestrian crossing in Glan Conwy, Correspondence – Glan Conwy Community Council to Committee, 10.01.22

Dear Committee Members,

We are very pleased with the outcome of our petition to the Senedd. In particular that Jack Sargeant MS, Chair of the Petitions Committee, took the trouble to see for himself the nature of our concerns. However, having seen Conwy CBC's response, is it not the responsibility of the N&MW Trunk Road Agency rather than Conwy County Council to facilitate the siting of signage and other safety measures on the A470 trunk road? Our Community Council is prepared to cover the costs of any measures that are approved by the agency.

Would you please inform the agency of your decision?

All the Best Daniel Worsley (Councillor)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon